



Ymchwil Gwerthuso
Tîm o Amgylch y Person Ifanc (TAPI) GISDA
Adroddiad Llawn

Enw'r sefydliad: Prifysgol Bangor, Yr Ysgol Hanes, Y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas
Enw a chyferiad cyswllt: Dr Myfanwy Davies (Prif Ymchwilydd)
myfanwy.davies@bangor.ac.uk /
Gwilym Siôn ap Gruffudd (Swyddog Ymchwil)
g.s.apgruffudd@bangor.ac.uk



Crynodeb Gweithredol

Dyma adroddiad ar ddarganfyddiadau prosiect TAPI GISDA rhwng Mawrth 2022 ac Awst 2022, sef cyfnod y comisiwn a dderbyniodd Prifysgol Bangor gan GISDA. Mae'r adroddiad yn ddilyniant o'r adroddiad pennawd a luniwyd mis Mai 2022.

Comisiynwyd Prifysgol Bangor i gwblhau darn o waith ymchwil yn archwilio i effeithlonrwydd prosiect TAPI o ran datblygiad **sgiliau a chyrrhaeddiad dysgu, hyder, lles, chyflogadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol, a chyfranogiad ymysg defnyddwyr y cynllun**. Cytunwyd hefyd i adnabod arfer da o fewn y prosiect ac ar draws y llenyddiaeth o ran cefnogi trosglwyddiad pobl ifanc i'r gwaith.

Mae'r adolygiad llenyddol yn disgrifio heriau sydd yn wynebu pobl ifanc o ran iechyd a lles a chynhwysedd cymdeithasol. Mae hefyd yn adnabod arfer da o ran cynllunio gwasanaethau ar sail medrau pobl ifanc, cynllunio ymyraethau ar sail gweithgareddau hwylus a chymdeithasol a phwysigrwydd perthynas agos â staff a gwirfoddolwyr ag agwedd cadarnhaol ac chefnidiroedd tebyg. Erys heriau o ran sicrhau bod sgiliau bywyd a addysgir drwy gynlluniau o'r fath ag effaith hir-dymor. Credir bod angen deall mwy am brofiadau defnyddwyr a sut y mae'r gwasanaethau yn asio gyda'u profiadau diwylliannol a phersonol blaenorol.

Cynhaliwyd 42 cyfweiliad gyda defnyddwyr TAPI rhwng Ebrill a diwedd Gorffennaf 2022. Gan fod ystod y gweithgareddau y cynhwyswyd o fewn TAPI yn eang tu hwnt, ni fu'n bosib olrhain perthynas glir rhwng ymyriadau unigol a llwyddiant o ran y nodau uchod. Er hynny, y mae'r data yn dangos fod y gweithgareddau wedi cynyddu hyder, lles a chyflogadwyedd defnyddwyr yn sylweddol. Cysylltwyd cynnydd o ran cynhwysiant cymdeithasol gyda thripiâu a gweithgareddau hamdden a chysylltwyd cyfranogiad gydag ymweliad â'r Senedd a'r cyfle i gyfrannu at gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol o fewn GISDA. Defnyddiwyd data a gasglwyd gan GISDA i atgyfnerthu'r dadansoddiad o ran effeithiau cadarnhaol ac ystod eang y gweithgareddau; hyn o ran y cynnydd mewn hyder ar draws y grwpiau ymgwymerodd â'r gweithgareddau ac hefyd o ran adroddiadau cyfranogwyr yr ymchwil bod ymyraeth GISDA wedi arwain at osgoi canlyniadau negyddol y byddai wedi dilyn heb y gefnogaeth honno.

Mae'r adroddiad yn cloi gyda chasgliadau sydd yn trafod llwyddiant y gweithgareddau ac sydd hefyd yn ystyried sut y bu iddynt atgynhyrchu arfer da yn ryngwladol a sut y gellid gyfrannu ymhellach at y drafodaeth honno.

Tabl Cynnwys

1	Cefndir ac adolygiad o'r llenyddiaeth	4
2	Methodoleg, nod ac amcanion	14
3	Gofynion moesegol	16
4	Samplu, coladu, dadansoddi a gwerthuso'r data	17
5	Themâu	23
6	Casgliadau ac argymhellion	44
	Atodiadau	
i	Taflen wybodaeth i gyfranogwyr	48
ii	Ffurflen gydsynio	52
iii	Canllaw cyfweiliadau	54
iv	Crynodeb o ddogfennau polisi perthnasol y Brifysgol	55

1. Cefndir ac Adolygiad o'r lenyddiaeth

GISDA fel sefydliad ac ystod y gwasanaeth

Yn wreiddiol, sefydlwyd GISDA yn 1985 er mwyn cynnig lloches a chefnogaeth i bobl ifanc digartref yng Ngwynedd nad oedd yn cyrraedd trothwyon gwasanaethau statudol i'w cartrefu. Mae bellach yn fenter gymdeithasol sefydledig ac adnabyddus i wasanaethau statudol ac anstatudol yn ogystal â defnyddwyr fel sefydliad sydd gyda strategaeth gadarn a phrif nod o gynnig gwasanaeth i bobl ifanc bregus sydd rhwng 16 a 25 mlwydd oed y Sir.¹

Prosiect Tîm o Amgylch y Person Ifanc (TAPI)

Mae GISDA yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, a sawl prosiect byw sy'n ceisio diwallu anghenion unigolion a budd-ddeiliad allweddol, a thrwy hynny cymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Croesgyfeirir amlinelliad o'r gwahanol weithgareddau yn adroddiad Cymorth Tai GISDA (2022) Mantell Gwynedd. Felly nid ydym yn gweud hynny yma. Ond nodwn fod TAPI yn gynllun peilot gan GISDA a ariennir gan Gronfa Adnewyddu Gymunedol Cyngor Llywodraeth Y Deyrnas Unedig, gyda'r amcan o hyrwyddo cydweithio gwell rhwng mudiadau statudol a thrydyddol wrth gynnig gwasanaethau cefnogol i bobl ifanc. Manylir ar union sgôp, amcanion a nodau'r ymchwil hwn yn yr adran ar fethodoleg.

Mae'r adolygiad o'r lenyddiaeth yn olrhain tystiolaeth ymchwil sy'n ymwneud â'r ymyraethau penodol a gynigir i bobl ifanc drwy brosiect TAPI, GISDA, gan geisio dod o hyd i farn a phersectifiau defnyddwyr ganolog ynddynt ar **wybodaeth am sgiliau a**

¹ <https://www.gisda.org/cy/amdanom-ni>

chyrhaeddiad dysgu, hyder, lles, cyflogadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad mewn rhaglenni.

Mae Jackson, D., Fleming, J. & Rowe, A., (2019)², yn dangos fod **trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth** yn faes cymhleth ac nad oes dadansoddiad empirig ohono. Hefyd nodent bod hwyluso trosglwyddo yn elfen hanfodol o baratoi pobl ifanc ar gyfer dechrau yn y gweithle.

Mae'r pobl ifanc (neu fyfyrwyr yn y cyd-destun hwn) "yn ymarfer trosglwyddo" yn ystod dysgu integredig tra yn y gweithle, ac mae'r nodweddion a gaed yn y gweithle yn gwella hyder a galluoedd pobl ifanc. Mae hyn yn amlygu'r angen am gynllunio cwricwla gofalus.

Mae'n bwysig i addysgwyr/neu gynllunwyr rhaglen hyfforddiant gymryd agwedd gyfannol tuag at ddatblygu gallu a sgiliau pobl ifanc i drosglwyddo i'r gweithle, gan dynnu ar ddysgu ymarferol a dilys mewn gweithgareddau cwricwlaidd, cyd-gwricwlaidd ac allgyrsiol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud yn benodol â diwydiant.

O ran tystiolaeth ryngwladol, amlyga adolygiad systematig Nasheeda, A., Abdullah, H.B., Krauss, S.E., a Ahmed, N.B., (2019)³, blaenoriaethau a bylchau mewn ymchwil ar effeithiolrwydd sgiliau bywyd addysgol. Nod yr adolygiad oedd cael dealltwriaeth fyd-eang a chynhwysfawr o effeithiolrwydd addysg sgiliau bywyd. Datgelwyd gwahaniaethau amlwg mewn addysg sgiliau bywyd rhwng gwledydd sy'n datblygu a gwledydd datblygedig. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth unigolion ifanc yn dangos fod gwledydd datblygedig yn cynnal rhaglenni addysg sgiliau

² Jackson, D., Fleming, J. & Rowe, A. Enabling the Transfer of Skills and Knowledge across Classroom and Work Contexts. *Vocations and Learning* 12, 459–478 (2019). <https://doi.org/10.1007/s12186-019-09224-1>

³ Nasheeda, A., Abdullah, H.B., Krauss, S.E., a Ahmed, N.B., (2019)

A narrative systematic review of life skills education: effectiveness, research gaps and priorities, *International Journal of Adolescence and Youth*, 24:3, 362-379, DOI: 10.1080/02673843.2018.1479278
<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/02673843.2018.1479278>

bywyd mewn dull systematig sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Ond roedd y mwyafrif o wledydd sy'n datblygu yn ddiffygiol o ran gwerthuso a monitro rhaglenni sgiliau bywyd yn systematig.

Thema arall canfyddiadau'r ymchwil yma oedd mai effaith tymor byr oedd gan y rhaglenni. Maent yn dadlau'n gryf bod angen deall profiadau dysgu pobl ifanc o fewn addysg sgiliau bywyd a nodi pa sgiliau sydd fwyaf effeithiol ar adegau anodd. Mae angen mwy o waith i sicrhau bod sgiliau bywyd yn cael eu trosglwyddo'n briodol er mwyn sicrhau canlyniadau hirdymor. Hefyd bod archwilio profiadau pobl ifanc o fewn diwylliant gwreiddio'r unigolyn yn bwysig er mwyn deall sut mae unigolion o wahanol gefndiroedd yn troi gwybodaeth am sgiliau bywyd yn realiti. Gall ymchwil o'r fath roi persbectif mwy cynnil ar realiti effeithiolrwydd rhaglenni. O'i gymhwyso, gallai canlyniadau'r adolygiad yma fod yn hynod fuddiol i weinyddwyr, llunwyr polisi, ymchwilwyr a hyfforddwyr roi rhaglenni sgiliau bywyd effeithiol ar waith. (Hyn o dderbyn mai nod addysg sgiliau bywyd yw rhoi gwybodaeth briodol i unigolion am ymddygiadau addas a datblygu sgiliau fel cyfathrebu, pendantrwydd, hunanymwybyddiaeth, gwneud penderfyniadau, datrys problemau, meithrin a datblygu meddwl beirniadol a chreadigol i'w hamddiffyn rhag camdriniaeth a chamfanteisio).

Gellid defnyddio'r canfyddiadau fel mewnbwn ar gyfer datblygu rhaglenni sgiliau bywyd cynaliadwy i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'n cael eu trosglwyddo. Yn yr un modd gellid defnyddio TAPI a'r gweithgareddau at yr un pwrpas, gan greu cyfle euraidd i ychwanegu ar y corpws o dystiolaeth ymchwil ansoddol ar addysg sgiliau bywyd. Byddai hyn yn ymateb i'r prinder mawr o'r math yma o ymchwil yn rhyngwladol. Ychydig iawn o ymchwil, sydd wedi'i gyfeirio at drosglwyddo gwybodaeth sgiliau bywyd pobl ifanc i'w bywydau bob dydd.

O ran tystiolaeth rwyngwladol ar **lles, cyflogadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol**, amlyga Van der Veken, K., Lauwerier, E. & Willems, S. (2020)⁴, fod grwpiau sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol yn wynebu risg llawer uwch o lesiant isel ac iechyd gwael.

Mae allgáu cymdeithasol yn lleihau cyfleon i bobl a effeithir cael mynediad at raglenni atal safonol. Astudiaeth achos o ddatblygu sefydliad di-elw eithaf mawr yng ngwlad Belg ydy sail ymchwil Van der Veken et al. Defnyddir yr astudiaeth achos i archwilio'r sut y gall rhaglen chwaraeon wella cynhwysiant cymdeithasol. Maent hefyd yn archwilio'r amodau angenrheidiol er mwyn cyflwyno camau effeithiol er mwyn hyrwyddo iechyd a lles y cyfranogwyr. Mae eu dulliau ymchwil yn eang ac yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau, arsylwadau cyfranogol, cyfweiliadau, a grŵp ffocws.

Nodir fod mecanweithiau effeithiol yn cael eu sbarduno gan weithgareddau hwyliog a chysylltu â chyfoedion (rhai ohonynt yn fodel rôl), ac ymgysylltu fel gwirfoddolwr gyda chyfrifoldebau a hyrwyddo pobl ifanc i feithrin ymddiriedaeth ynddynt eu hunain ac mewn eraill.

Ffactorau eraill oedd yn cyfrannu at lwyddiannau y raglen oedd hygyrchedd gweithgareddau, ymagwedd ddiamod (creu ymdeimlad o ddiogelwch), creu yr ymdeimlad o berthyn, hyrwyddo rhwydwaith cyson o bartneriaid cymdeithasol a pherthynas hynod gadarnhaol gyda'r staff.

⁴ Van der Veken, K., Lauwerier, E. & Willems, S. "To mean something to someone": sport-for-development as a lever for social inclusion. *Int J Equity Health* 19, 11 (2020). <https://doi.org/10.1186/s12939-019-1119-7>
<https://equityhealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12939-019-1119-7>

Casgliad yr ymchwilyr yw fod eu canfyddiadau o werth a pherthnasedd i sefydliadau di-elw rhyngwladol eraill fel ffordd o ymgysylltu â grwpiau poblogaeth tebyg sydd yn anodd eu cyrraedd, gall ymyraethau or fath wella ymdeimlad pobl sy'n agored i niwed yn gymdeithasol o gymhwysedd a chysylltedd, ac arwain at gyfleoedd i wella sgiliau bywyd a throsglwyddedd i'r gweithle.

Hefyd, mae tystiolaeth astudiaeth gymunedol o faes seicoleg chwaraeon gan Quinton, M.L, Clarke, F.J., Parry, B.J., a Cumming, J. (2021)⁵, yn archwilio effaith seicoleg gadarnhaol ar **wydnwch, dycnwch a lles pobl ifanc di-gartref**, yn bwysig ar gyfer polisi, comisiynwyr rhaglenni ac ymchwil. Dengys gall ymyriadau seicoleg chwaraeon wella llesiant pobl ifanc ddifreintiedig.

Mae digatrefedd yn fater o gonsyrn cynyddol i bobl ifanc bregys rhwng 16-24. Maent yn wynebu heriau lluosog i fyw bywydau annibynnol llwyddiannus fel oedolion, (megis integreiddio'n gymdeithasol) ac mewn mwy o berygl o gael problemau corfforol a seicogymdeithasol o gymharu â chyfoedion mewn cartrefi sefydlog.

Mae ymchwil gan Quinton a chydweithwyr (2021)⁶, yn amlygu heriau ychwanegol sydd yn wynebu'r pobl ifanc yma e.e. effaith negyddol trawma ar ddatblygiad yr ymennydd yn ystod camau datblygiad, o lencyndod cynnar (11-13 oed), i lencyndod (14-17 oed), hyd at bod yn oedolyn ifanc (18-25 oed). Nid yw'r

⁵ Quinton, M.L, Clarke, F.J., Parry, B.J., a Cumming, J.
An evaluation of My Strengths Training for Life™ for improving resilience and well-being of young people experiencing homelessness, First published: 23 January 2021 <https://doi.org/10.1002/jcop.22517>
<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1002/jcop.22517>

⁶ Quinton, M.L, Clarke, F.J., Parry, B.J., a Cumming, J.
An evaluation of My Strengths Training for Life™ for improving resilience and well-being of young people experiencing homelessness, First published: 23 January 2021 <https://doi.org/10.1002/jcop.22517>
<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1002/jcop.22517>

ymennydd wedi aeddfedu'n llawn hyd at 25; yn enwedig y cortecs rhagflaenol, sy'n gysylltiedig â rheolaeth emosiynol a sgiliau hunanreoleiddio.

O ganlyniad mae gan yr ymennydd blastigrwydd eang yn ystod llencyndod a bod yn oedolyn ifanc, a hynny yn gwneud y cyfnod rhwng 14-25 oed yn adeg cyfleus i fireinio a datblygu'r sgiliau meddwl sy'n hanfodol i reoli'r heriau uchod.

Cydnabyddai Quinton a chydweithwyr, fod ymchwil a gynhaliwyd ymysg y boblogaeth yma yn bennaf wedi mabwysiadu dull seiliedig ar ddiffygion, sydd yn canolbwyntio felly ar broblemau. Mae hynny yn meithrin cred fod pobl ifanc â chyfres o broblemau sydd angen eu "trwsio," gan greu dibyniaeth ar eraill yn hytrach nag annog ymreolaeth. Nodant bod ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau pobl ifanc sydd yn gallu datblygu'n llwyddiannus fel oedolion, a hynny hyd yn oed o dan yr amgylchiadau mwyaf andwyol, yn adeiladu yn lwyddiannus ar gryfderau presennol ac yn llwyddo i hybu llesiant meddwl cadarnhaol.

Un o egwyddorion sylfaenol y ddull a fabwysiadwyd yn yr ymchwil yma oedd nad oedd gan bobl ifanc broblemau i'w trwsio, ond yn hytrach bod ganddynt adnoddau i'w datblygu. Arweiniodd hyn at ganlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc difreintiedig, megis ymddygiadau risg is, cyflawniad academaidd gwell, gwell iechyd meddwl a gwydnwch a llesiant ar ôl cymryd rhan mewn rhaglenni **My Strengths Training for Life™ (MST4Life™)**. Nodant hefyd bod hyn yn dirywio dros amser ymysg y grŵp heb unrhyw ymyrraeth pellach.

I grynhoi, mae'r astudiaeth hon yn cynnig tystiolaeth y gall pobl ifanc sy'n profi digartrefedd, o gymryd rhan mewn rhaglen gymunedol sydd yn dilyn egwyddorion

a feithrinir gan rhai fel MST4Life™, wella eu gwydnwch a'u lles meddyliol a datblygu sgiliau meddwl, waeth beth fo'u nodweddion demograffig.

Mae **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, unigrwydd** a mesur y berthynas rhwng rhain **a llwyddiant addysgol a chyflogaeth** yn Nghymru a Lloegr, yn cael sylw gan Hardcastle, K., Bellis, M.A., Ford, K., Hughes, K., Garner, J., a Ramos Rodriguez, G., (2018)⁷.

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio'r cysylltiad rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (Adverse Childhood Experiences (ACE)) a chanlyniadau addysgol gwael, cyn ystyried effaith ACE ac addysg ar gyflogaeth fel oedolyn.

Dengys, er fod pobl ifanc a chanddynt mwy na 4 profiad o ACE yn sylweddol fwy tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol, ymhlith y rhai a enillodd gymwysterau lefel uwchradd, ni chafodd profiad ACE effaith bellach ar y tebygolrwydd o fynd ymlaen i ennill cymwysterau coleg neu uwch. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n awgrymu effaith annibynnol barhaus ACEs pan fo'r uniogolion wedi profi 4 achlysur neu fwy. Canfyddwyd eu bod yn sylweddol gysylltiedig gyda diweithdra presennol a salwch ac anabledd hirdymor. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn atseinio'r un pryder gan ddangos o ran oedolion hyd at 49 oed, bod 24.9% o unigolion â phedwar ACE neu fwy wedi datgan eu bod wedi cael diagnosis o un neu fwy o glefydau cronig. Roedd y ffigur yn sylweddol is na'r 6.9% i'r rhai nad oeddynt wedi profi unrhyw ACE

⁸. Casgliad yr awduron yw ei bod yn bwysig gweithredu yn fwriadol ac na ddylai

⁷ Hardcastle, K., Bellis, M.A., Ford, K., Hughes, K., Garner, J., a Ramos Rodriguez, G., Measuring the relationships between adverse childhood experiences and educational and employment success in England and Wales: findings from a retrospective study, Public Health, Volume 165, 2018, Pages 106-116, ISSN 0033-3506, <https://doi.org/10.1016/j.puhe.2018.09.014> <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0033350618303032>

⁸ Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: adroddiad Llywodraeth Cymru, 17 Mawrth 2021 <https://llyw.cymru/adolygiad-or-polisi-ynghylch-profiadau-niweidiol-yn-ystod-plentyndod-adroddiad-html>

oedolion ag ACE gael eu hanwybyddu. Yn hytrach dylid ystyried ymdrechion i'w cefnogi i sicrhau cyflogaeth ystyrllon.

Oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol a chyfraith gwlad, cyn yn ac yn ystod cyfnod pandemig COVID-19, mae unigrwydd wedi peri ing i ganran uchel o'r boblogaeth (ac yn parhau wneud hynny i rhai grwpiau o bobl).

Mae Matthews, T., Danese, A., Caspi, A., Fisher, H., Goldman-Mellor, S., Kepa, A., ac Arseneault, L. (2019)⁹, yn defnyddio data o'r Astudiaeth Gefeilliaid Hydredol Risg Amgylcheddol, a charfan geni o 2232 o unigolion a aned yng Nghymru a Lloegr rhwng 1994 a 1995. Maent yn adeiladu proffil manwl, integredig o'r cydberthynas rhwng teimladau oedolion ifanc o unigrwydd, o ran eu hiechyd a'u gweithrediad presennol ar un llaw a phrofiadau ac amgylchiadau eu plentyndod ar y llaw arall. Daethant i'r canlyniad fod oedolion ifanc yn fwy unig nac oedolion hyn. Roeddent yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl, yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymddygiadau risg iechyd corfforol, ac o ddefnyddio strategaethau mwy negyddol i ymdopi â straen. Roeddent yn llai hyderus yn eu rhagolygon cyflogaeth ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith. Hefyd, roeddynt yn fwy tebygol o fod wedi cael anawsterau iechyd meddwl ac o fod wedi profi bwlio ac ynysu cymdeithasol. Roedd yr unigrwydd wedi'i ddsbarthu'n gyfartal ar draws y rhywiau a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol. Mae gan hyn oblygiadau pellgyrhaeddol negyddol i'w iechyd yn ddiweddarach yn eu bywydau.

⁹ Matthews, T., Danese, A., Caspi, A., Fisher, H., Goldman-Mellor, S., Kepa, A., & Arseneault, L. (2019). Lonely young adults in modern Britain: Findings from an epidemiological cohort study. *Psychological Medicine*, 49(2), 268-277. doi:10.1017/S0033291718000788
<https://www.cambridge.org/core/journals/psychological-medicine/article/lonely-young-adults-in-modern-britain-findings-from-an-epidemiological-cohort-study/2AD2B6E4613435CDF85BC4359DD51A1B>

Mae'r canfyddiadau'n tanlinellu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar i atal oedolion ifanc unig rhag cael eu dal mewn unigrwydd wrth iddynt heneiddio.

Mae gweithredu polisi a strategaethau yn frwd yn Nghymru i geisio mynd i'r afael a'r amryfal faterion sydd yn amharu ar fywydau ein pobl ifanc.

Mae **Comisiynydd Plant Cymru** wedi cyhoeddi gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun ar gyfer bob Plentyn a Pherson Ifanc 2019-2022¹⁰, sy'n ffocysu ar 5 prif ddyhead ar gyfer plant a phobl ifanc, gyda'r uchafbwyntiau a datblygiadau wedi eu nodi, a dau yn sefyll allan:

1. cynnydd cyson tuag at ddull 'Dim Drws Anghywir' ar gyfer gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth ledled Cymru
2. newidiadau sylweddol mewn hawliau dinesig i bobl ifanc, gyda datblygu Senedd leuencid Cymru a gostwng yr oedran pleidleisio i 16.

Mae'r Arolwg Addysg y Ffordd Gywir (The Right Way Education Survey) 2018¹¹, yn berthnasol hefyd, sef arolwg cenedlaethol yn mesur i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn profi y *pum egwyddor dynesu ar sail hawliau plant yn eu haddysg* (five principles of children's rights approach in their education).

Mae gan **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**, yntau Saith Nod Llesiant¹² sy'n cydgordio agweddau ynghlwm wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol¹³, gyda 3 nod yn sefyll allan.

¹⁰ Comisiynydd Plant Cymru Ein Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc 2019-22: Gwerthusiad <https://www.complancymru.org.uk/cyhoeddiadau/>

¹¹ The Right Way Education Survey <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Childrens-Rights-Survey.pdf>

¹² Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Saith Nod Llesiant <https://futuregenerations2020.wales/welsh>

¹³ Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

<https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

1. *Sgiliau*: rhoi addysg i bobl, a'r cyfle i ddatblygu set cywir o sgiliau ar gyfer eu dyfodol gan gynnwys sgiliau mewn perthynas ag iechyd, sefyllfa economaidd-gymdeithasol a disgygliad oes.
2. *System Lles a Iechyd*: dod o hyd i ffyrdd gwell o hybu iechyd a lles gan fod iechyd da yn un o brif flociau adeiladu lles a chyfle.
3. *Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod*: ceisio lliniaru effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gan ei fod yn thema drawsbynciol a'n hanfodol i iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Cydnabyddir fod rhain yn faterion cymhleth sydd angen mynd i'r afael â hwy trwy gydweithio ar draws sectorau statudol ac anstatudol.

Mae'r adran hon wedi darparu cefndir ar ddatblygiad ac ystod gwasanaethau GISDA. Disgrifiwyd rhai o anghenion, galluoedd a phriodweddau y pobl ifanc oedd yn ffocws i wasanaethau tebyg i TAPI. Er bod ymarfer da ar draws y byd o ran dysgu sgiliau bywyd i bobl ifanc, roedd adolygiad systematig yn dangos mai effeithiau byd-dymor sydd i'r cynlluniau yn aml. Gosodwyd her i ddarparwyr ddeall profiadau defnyddwyr amrywiol yn well ac adnabod pa sgiliau sydd yn ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd anodd dros amser. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd defnyddio model yn seiliedig ar gryfderau yn hytrach na diffygion pobl ifanc, rôl ganolog gweithgareddau cymdeithasol a pherthynas cryf a staff ac effaith COVID o ran cynyddu unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Trafodwyd dyheadau Comisiynydd Plant Cymru o ran hyrwyddo hawliau dinesig a gweld cydweithio agosach gwasanaethau er lles pobl ifanc. Trafodir hefyd Saith Nod Llesiant Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru o ran nodau penodol cynyddu sgiliau, gwella iechyd a mynd i'r afael a phrofiadau niweidiol yn y ystod plentyndod trwy gydweithio.

Bydd yr adran ar gasgliadau'r ymchwil hon yn ystyried sut y bu i TAPI adeiladu ar yr ymarfer da o fewn y llenyddiaeth a thueddiadau polisi Cymru. Bydd yn ystyried sut y gall TAPI (a'r gwaith adroddir yma) gyfrannu at ymestyn y drafodaeth.

2. Methodoleg, Nod ac Amcanion yr Ymchwil

Sail methodoleg yr ymchwil ydy'r lenyddiaeth uchod. Defnyddir ymchwil ac ymdriniaeth ansoddol yn bennaf gyda pheth croes ddadansoddiad o ddata meintiol sefydliadol. Y prif ddull a ddefnyddiwyd i werthuso'r prosiect oedd cyfweiliadau lled-strwythuredig wedi eu teilwra i ennyn ymateb gan ddefnyddwyr gwasanaethau TAPI o ystod oedran a rhyw.

Cafodd **nodau'r trosfwaol** y gwerthusiad eu gosod yn bennaf gan y Gronfa Adfywio Cymunedol ¹⁴

- **Priodoldeb dyluniad cychwynnol**
Gan gynnwys yr hyn y mae'r prosiect yn ceisio ei wneud, ei resymeg, cyd-destun economaidd a pholisi, methiannau yn y farchnad y ceisir ymrafael â nhw, cynllunio effeithiol a chyflawnder, targedau cyraeddadwy a hyblygrwydd ymateb rheolaethol i gyd-drefniant a chyflawnder y prosiect
- **Cynnydd yn erbyn targedau**
Cyflawniad disgwyliedig yn ôl gwariant ac allbynnau, adnabod ffactorau perfformio esbionadwy a'r bwriadau a disgwyliadau cyflawniad y prosiect wrth iddo ddwyn i'w derfyn
- **Cyflenwi a rheoli**
Rheoli a strwythurau lywodraethiant effeithiol a disgwyliedig, cyflawnder gweithgareddau arfaethedig o safon uchel, adnabod gwelliannau bosib, buddiolwyr uniongyrchol – sicrhau dewis a thargedu buddiolwyr cywir drwy weithdrefnau a meini prawf a barn rhanddeiliaid a buddiolwyr am weithgareddau'r prosiect.
- **Canlyniadau ac effaith**

¹⁴ [Cronfa Adfywio Cymunedol y DU Nodyn Canllawiau Monitro a Gwerthuso Pellach ar gyfer Cyflenwyr Prosiect - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Y cynnydd y mae'r prosiect wedi ei wneud ar gyfer bodloni canlyniad ac effeithiau y dymunwyd ei weld, adnabod y graddau y gellir priodolddu newidiadau mewn dangosyddion effaith a chanlyniad perthnasol i weithgareddau'r prosiect, y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol gros a net y prosiect a'u meintoli'n ystadegol gadarn ynghlwm wrth y prosiect ynghyd a sut mae'r prosiect wedi cyfrannu at gynllun strategol ehangach yn gysail iddo

- **Gwerth am arian**
Ni chafwyd gwybodaeth pellach am y nod yma
- **Gwersi wedi'u dysgu**
- Ni chafwyd gwybodaeth pellach am y nod yma

Comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan GISDA er mwyn mesur llwyddiant y gwaith mewn perthynas â'r **nodau penodol** isod:

- Gwerthuso llwyddiant prosiect aml-ffocws sy'n cynnig ystod eang o ymyraethau o amgylch anghenion pobl ddigartref a bregus yng Ngwynedd
- Adnabod yr angen, dyheadau a barn bobl ifanc GISDA am gynllun a gweithgareddau TAPI
- Archwilio ffactorau sydd yn rhwystro neu yn hwyluso gweithgareddau TAPI
- Mapio demograffig y cyfeiriadau a dderbynnir gan asiantaethau
- Nodi arfer gorau a thystiolaeth o effaith i'w ddefnyddio mewn ceisiadau ariannu pellach er mwyn gallu darparu cymorth â ffocws personol i bobl ifanc a phobl sy'n agored i niwed
- Sefydlu set ddata a gwaelodlin i'r project fel y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo ymchwil pellach a chael budd i werthusiadau tebyg i'r dyfodol.

Mewn gwirionedd **un amcan** sydd yn perthyn i'r adroddiad ymchwil yma, sef:

- Gwerthuso effeithiolrwydd prosiect TAPI o bersbectif y defnyddwyr gan ganolbwyntio ar **sgiliau a chyrrhaeddiad dysgu, hyder, lles, chyflogadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol, a chyfranogiad** wrth iddynt ymwneud â rhaglenni a gweithgareddau sy'n ffocysu ar:
 - weithgareddau Therapiwtig a Chreadigol
 - gefnogaeth cyflogadwyedd trwy ddysgu a hyfforddiant penodol
 - lleoliadau gwaith, dysgu a busnes
 - mentrau a gyfeirir gan gyfranogwyr i adeiladu hunan-eiriolaeth, cyfranogiad cymdeithasol a chynhwysiant cyfranogwyr

3. Gofynion Moesegol

Derbyniodd y prosiect sêl bendith Pwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Bangor ar y 4ydd Ebrill 2022.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng 21 Ebrill hyd at 29ain Gorffennaf 2022.

Derbyniodd y swyddog ymchwil gwiriad DBS llawn ar y 23ain Mawrth 2022.

4. Samplu, Coladu, Dadansoddi a Gwerthuso'r Data

I geisio diwallu anghenion, nodau ac amcanion yr ymchwil, cyfwelwyd 42 o unigion rhwng 21ain Ebrill hyd at 29ain Gorffennaf 2022.

Fframwaith cysyniadol yr ymchwil:

Yn aml, diffinnir pwrpas fframwaith cysyniadol fel ffordd o esbonio a threfnu syniadau er mwyn cyflawni amcanion y prosiect ymchwil. Gall fod yn gyflwyniad ysgrifenedig neu weledol "yn egluro naill ai ar ffurf ddarluniadol neu ar ffurf naratif, y prif bethau i'w hastudio - ffactorau allweddol, cysyniadau neu newidynnau - a'r berthynas dybiedig rhyngddynt" (Miles a Huberman, 1994¹⁵). Mae'n darparu strwythur a chynnwys ar gyfer yr astudiaeth gyfan yn seiliedig ar lenyddiaeth a adolygwyd a phrofiad personol. Datblygir fframwaith cysyniadol fel bod barn a materion cyfranogwyr yn cael eu casglu a'u dadansoddi'n ddefnyddiol fel offeryn hidlo ar gyfer dewis cwestiynau ymchwil priodol a dulliau casglu data cysylltiedig. Trwy'r broses hon strwythurwyd cwestiynau'r ymchwil.

Trwy ddadansoddi'r dylanwadau a'u cymhwyso trwy gydol y broses ymchwil creir fframwaith damcaniaethol glir. Ystyrir hyn yn gam hollbwysig o ran deall effeithiolrwydd gwasanaethau, rhyngweithio â defnyddwyr a chynllunio a darparu gwasanaethau i'r dyfodol.

Nodir fod agenda'r comisiwn ymchwil ac amcan yr ymchwil, yn cwmpasu a llunio materion oedd o dan sylw wrth i'r ymchwilwyr lunio fframwaith yr ymchwil.

¹⁵ Miles, M.B.M., Huberman, A.M. (1994). *Qualitative Data Analysis: An expanded Sourcebook*. Sage

Samplu:

Wrth lunio'r cynnig ymchwil gyda'i gilydd, bu i Brifysgol Bangor a GISDA benderfynu bod angen ceisio cyfweld oddeutu 48 o bobl ifanc a oedd wedi/yn derbyn amrediad ac amrywiaeth eang o ymyraethau/wasanaeth TAPI. Llwyddwyd i gyfweld 42 o bobl ifanc ar gyfer y gwerthusiad gydag un yn dewis cyfrannau am yr eildro.

Er cynllunio cyfweld y mwyafrif o gyfranogwyr wyneb yn wyneb yn swyddfeydd GISDA yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli, oherwydd natur barhaus pandemig COVID-19, dewisodd llawer iawn o'r cyfranogwyr cynnal cyfweiliadau dros y ffôn¹⁶.

Tabl 1. Dyraniad cyfranogwyr a chyfwelai yr ymchwil yn ôl dewis dull cyfweld a rhywedd

Cyfranogwyr ar y Ffôn	23
Cyfranogwyr WYW	19
Cyfranogwyr Gwryw	13
Cyfranogwyr Benyw	29
CYFANSWM	42⁺

¹⁶ Mae nifer cynyddol o gyhoeddiadau ymchwil yn nodi bod cyfweiliadau ffôn yn cael ei ffafrio dros cyfweiliadau wyneb yn wyneb gan iddynt fod yn gyfrwng mynediad i gyfranogwyr o ardal ddaearyddol fawr (diderfyn) ac y gellir cael gwybodaeth o'r llais a chraffu ar yr oslef. Mae'r cyfweiliad ffôn yn addas ar gyfer cyfweiliadau byrrach sy'n benodol ond eto heb fod yn rhy bersonol, fel ffordd effeithiol o hyrwyddo cynhwysiant a chydaddoldeb mewn ymchwil. Gweler: *European Journal of Cardiovascular Nursing*, Volume 20, Issue 4, April 2021, Pages 392–396, <https://doi.org/10.1093/eurjcn/zvab038> a <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0897189718302039> Pages 30-35, Wrth ddewis eu dull cyfweld, roedd gan gyfranogwyr yr ymchwil yma, rym.

Tabl 2. Dyraniad cyfranogwyr a chyfwelai wedi eu codio, rhywedd, dull a/neu lleoliad cyfweid

Cyfranogwyr a Chyfwelai	Rhywedd	Lleoliad
CCBF1	Benyw	Ffôn
CCBF2	Benyw	Ffôn
CCBF3	Benyw	Ffôn
CCBF4	Benyw	Ffôn
CCBF5	Benyw	Ffôn
CCGF1	Gwryw	Ffôn
CCGF2	Gwryw	Ffôn
CCBF6	Benyw	Ffôn
CCBF7	Benyw	Ffôn
CCBF8	Benyw	Ffôn
CCBF9	Benyw	Ffôn
CCBF10	Benyw	Ffôn
CCBF11	Benyw	Ffôn
CCGF3	Gwryw	Ffôn
CCBF12	Benyw	Ffôn
CCBF13	Benyw	Ffôn
CCGF4	Gwryw	Ffôn
CCBF14	Benyw	Ffôn
CCGF5	Gwryw	Ffôn
CCGF6	Gwryw	Ffôn
CCBF15	Benyw	Ffôn
CCBF16	Benyw	Ffôn
CCBF17	Benyw	Ffôn
Wyneb Yn Wyneb Caernarfon		
CCGWC1	Gwryw	WyW TyY Caernarfon

CCGWC2	Gwryw	WyW TyY Caernarfon
CCGWC3	Gwryw	WyW Swyddfa Caernarfon
CCBWC1	Benyw	WyW Swyddfa Caernarfon
CCBWC2	Benyw	WyW Hafan Caernarfon
CCBWC3	Benyw	WyW TyY Caernarfon
CCGWC4	Gwryw	WyW TyY Caernarfon
Wyneb Yn Wyneb Pwllheli		
CCGWP1	Gwryw	WYW Swyddfa Pwllheli
*CCBWP1	Benyw	*Ffôn/WYW Swyddfa Pwllheli
Wyneb Yn Wyneb Blaenau Ffestiniog		
CCGWB1	Gwryw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB1	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB2	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB3	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB4	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCGWB2	Gwryw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB5	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB6	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCGWB3	Gwryw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB7	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog
CCBWB8	Benyw	WYW Blaenau Ffestiniog

⁺ * *Roedd y cyfranogwr yma yn dymuno ehangu ar ei chyfweliad ffôn cynharach a'n dymuno ymhelaethu ac ehangu ar ei hymatebion mewn person, wyneb yn wyneb. Roedd yr un cyfle ar gael i bawb yn ddiwahân.*

Y broses samplu:

Dewiswyd samplu pwrpasol ar gyfer samplu cyfranogwyr yr ymchwil gyda GISDA yn dewis a dethol unigolion a oedd yn hysbys iddynt ar eu bas data, wedi neu yn derbyn gwasanaeth TAPI ac eisoes wedi datgan diddordeb bod â rhan yn yr ymchwil.

Byddai GISDA drachefn, drwy ganiatâd ysgrifenedig a llafar yr unigolyn, yn rhannu manylion cyswllt gyda'r swyddog ymchwil er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer dull/lleoliad a dyddiad cyfweld cyfleus.

Roedd pob cyfranogwyr dros 18 (ac o dan 25). Roedd bregusrwydd y cyfranogwyr yn cael ei asesu gan Brif Weithredwr GISDA (gweithiwr cymdeithasol cofrestredig) a'i swyddogion a oedd yn ymwybodol neu yn asesu addasrwydd pob darpar gyfranogwr cyn cyfeirio at yr ymchwil. Cymerwyd y camau hyn gan fod y prosiect yn targedu nifer o grwpiau bregus, ac yn agored i niwed fel rhai sydd wedi bod neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a allasant hefyd fod yn fwy agored i anghydraddoldeb cyflogadwyedd, iechyd a lles.

Ni chyfeiriwyd unrhywun at yr ymchwil a oedd mewn perygl o gael eu niweidio neu eu heffeithio'n emosiynol o gymryd rhan yn yr ymchwil.

Ym mhob achos cynhaliwyd cyfweiliadau gydag aelod o staff GISDA (ac a oedd hefyd yn meddu ar DBS Uwch cyfredol) yn bresennol yn yr adeilad neu a oedd yn ymwybodol o drefniadau cyfweiliadau ar y ffôn.

Ar ddechrau pob cyfweiliad, ategwyd yr hawl oedd gan bob cyfranogwr a chyfwelai i'w hawliau craidd, preifatrwydd a chyfrinachedd gan dderbyn cydsyniad ysgrifenedig a llafar o'r ddealltwriaeth yn unol â gofynion moesegol yr ymchwil.¹⁷

Cafwyd caniatâd gan bawb a gymerodd ran yn yr ymchwil. Roedd pob ffeil sain a thrawsgrifiad yn ddiennw, a chafodd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy ei dileu yn ystod y broses drawsgrifio.

Hyd y cyfweiliadau:

Mae trwch hyd y cyfweiliadau yn disgyn i bum amser penodol fel y gwelir yn y tabl isod.

Nid oedd dewis dull y cyfweiliad o reidrwydd yn rhagdybio trefn a hyd y cyfweiliad, er cydnabyddir bod unigolion ar y cyfan yn datgan ac yn rhoi adborth positif iawn am eu profiadau am ymyraethau TAPI, GISDA. Yn ogystal roedd swildod a bregusrwydd cyfranogwyr o bosib yn ffactor gan iddynt fod mewn cyfnod trosiannol emosïynol ddyrys ac efallai yn gyndyn o ymhelaethu ymhellach ar eu profiadau, hynny yw yn hwy na'r hyn oedd angen i ateb y cwestiwn a ofynnwyd iddynt.

Tabl 3: Hyd y cyfweiliadau

> 40 munud	N = 1
> 30 munud	N = 2
> 15 munud	N = 14
> 10 munud	N = 13
> 5 munud	N = 12

¹⁷ Gweler atodiad 1: Taflen Gwybodaeth yr ymchwil ac Atodiad 2: Taflen Cydsynio yr ymchwil

5. Themâu

Gyda fframwaith cysyniadol yr ymchwil wedi ei egluro, y samplu wedi ei benderfynu a'r cyfweiliadau wedi mynd rhagddo, trawsgrifiwyd y cyfweiliadau sain air am air.

Yna, defnyddiwyd rhaglen gyfrifiadurol Atlas.ti (Fersiwn 8) i godio'r data a chynhyrchu adroddiadau thematig. I ychwanegu at gywirdeb a dibynadwyedd y data, fe godiwyd themâu drwy law yn ogystal â defnyddio dull awtomatig gan ddau ymchwilydd.

Defnyddiwyd dull fframwaith thematig Ritchie et al., 2014¹⁸ er mwyn trefnu'r data yn godau ac is-godau.

Gweithgareddau

Yn brif thema a thema gyson ac amlwg drwy'r holl gyfweiliadau oedd nad oedd y cyfranogwyr yn gallu cyfeirio at weithgareddau yn perthyn yn benodol i TAPI gan nad oeddynt yn llwyr ymwybodol o'i gysyniad mewn gwirionedd. Serch hynny, roeddynt yn gallu rhestru lluo o weithgareddau amrywiol oedd naill ai ar gael a/neu eu bod wedi eu mwynhau ac elwa arnynt fel rhan o gynlluniau a rhaglenni GISDA, megis: Academi Cyfleon, Atal Digartrefedd, Cynllun ôl-ofal, Prosiect Ieuencid LGBTQ+, Rhieni Ifanc a Hwb ICAN.

Dyma rhai enghreifftiau a nodwyd ganddynt :

- Padlfwrddio
- Campfa
- Ioga
- Nofio

¹⁸ Ritchie, J., Lewis, J., McNaughton Nicholls, C. & Ormston, R. (2014). *Qualitative Research Practice*. London: Sage. 271-303.

- Golff gwallgof
- Helfa Wyau Pasg
- Dringo ac abseilio clogwyni
- Cerdded (gan gynnwys rhai Lles ac lechyd)
- Cerdded a gweithgareddau celf mewn coedwigoedd
- Tripiâu Dinesig (Llundain, Caerdydd, Manceinion, Lerpwl a Chaer)
- Trip Ynys Enlli
- Trip Llechwedd
- Tripiâu undydd lleol gan gynnwys bwytai
- Tripiâu amgueddfeydd
- Tripiâu Sŵ
- Tripiâu Pili Palas
- Tripiâu Fferm hwyl ac addysgiadol
- Gweithgareddau dirgelwch, gemau chwarae rôl llofruddiaeth (murder mystery) ac ystafell ddianc
- Tripiâu LGBTQ+
- Youth Shed
- Sycas (bod yn rhan ac nid ymweld yn unig)
- Pêl-droed
- Beicio
- Sgelfrio lâ
- Nosweithiau ffilm a pítsa (CellB a Tŷ'r Ysgol)
- Clwb animeiddio
- Fforwm theatr
- Gweithgareddau realiti rhithwir a synhwyredd sain
- Bwrdd leuenctid
- Ymweld a lobio y Senedd
- Caffi Creu (celf, peintio efo ffyn a/neu dwylo, gwnïo, crosio, coginio, tectsiliau, gweithgareddau creadigol, dylunio lluniau digidol ar grysau-T, cardiau Nadolig)

Ystod a nifer y gweithgareddau

Mae data o'r cyfweiliadau yn tystio bod ystod eang a nifer o weithgareddau TAPI ar gael gan GISDA. Roedd cyfranogwyr yn yr ymchwil yn gwerthfawrogi'r ffaith fod hwyluswyr y gweithgareddau yn hynod awyddus i'w cynorthwyo ac nad oedd rheidrwydd iddynt orfod ymrwmo i fynychu yn wythnosol:

"Ti cael mynd i unrhyw un, ti just yn troi i fynny ti ddim yn gorfod deud tha nhw, totally flexible no pressure" (CCBF1)

Fodd bynnag, byddai sawl un wedi dymuno mwy o weithgareddau awyr agored ac eraill eisiau gweithgareddau a oedd yn cynnwys ymwneud ag anifeiliaid.

Wrth graffu ar ddata meintiol a mesuriadau ymyraethau TAPI, roedd 114 o sesiynau therapiwtig wedi digwydd rhwng 3.11.21 a 17.06.22 gyda 338 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y sesiynau, gydag 54% fel cyfartaledd yn cael ei nodi fel mesur o wahaniaeth ac effaith bositif o ymyraethau TAPI. Roedd pobl ifanc yn rhoi gradd allan o ddeg sut oeddynt yn teimlo cyn, ac ar ôl ymyraeth dros gyfnod o amser drwy weithgareddau creadigol. Ynglwm wrth y data meintiol mae data ansoddol sydd yn cadarnhau themâu ansoddol yr ymchwil hwn.

Cyllideb ar gyfer gweithgareddau

Byddai'n gywir nodi y bod y cyfranogwyr yn gyffredinol yn ymwybodol o ddiffyg cyllideb ar gyfer rhagor o weithgareddau:

"GISDA paid 6 months of my gym membership – but it has ended now, they wont pay for more than 6 months I was going every day to the gym too" (CCBF13)

Hefyd:

"GISDA paying for theory driving lessons and test - that's really good that GISDA has brought that in for us -opportunities to pass it for free – being on Universal Credit its impossible to afford that. This will benefit us a lot in the long run your'e more likely to get a job if you can drive" (CCBF5)

Eto, mae'n bwysig nodi nad oedd cyfranogwyr yn mynegi syniad o hawl, ond yn hytrach diolchgarwch am y cymorth a roddwyd tra roedd y cyllid yn parhau.

Amseru rhaglen gweithgareddau

Roedd canran uchel o bobl ifanc a chyfranogwyr yr ymchwil yn teimlo fod GISDA yn feddylgar iawn wrth lunio rhaglen weithgareddau gan ystyried sefyllfa unigolion, er enghraifft:

"Activities are on in the morning and I am on strong medication and the staff are understanding" (CCBF4)

hefyd:

"Ma nhw yn neud nhw yn Blaenau Ffestiniog a Caernarfon, ma nhw yn trefnu lift a bob dim, dw i yn gallu dreifio ond does gen i ddim digon o bres i dalu am betha fela i deithio yn bell a efo petrol prices fel mae o – neu sa nhw yn rhoi pres petrol i fi. Mae nhw yn rili da" (CCBF1)

Addasedd gweithgareddau

Er bod y mwyafrif yn hynod fodlon ar yr amrediad o weithgareddau ar gael iddynt, a bod GISDA yn barod iawn i dderbyn ac ymateb i adborth cyson, roedd pobl ifanc hyn yn enwedig, yn teimlo nad oedd rhai gweithgareddau yn addas o ran oedran a diddordebau. Enghraifft a roddwyd o hyn oedd:

"We can't watch certain movies because of age mix, some are only 13 we need a 16+ group with varied activities" (CCBWC3)

Ar yr adegau yma, roedd y rhai hyn yn teimlo dan bwysau neu oherwydd cydwybod moesegol i gymryd rôl cefnogol i'r rhai iau wrth eu mentora a'u cefnogi, yn hytrach nag fel person ifanc yn "derbyn gwasanaeth" ac yn mynychu er eu lles eu hunain.

Un cyfranogwr yn unig fynegodd farn eithafol am ei ymwneud â gweithgaredd

Bwrdd Pobl ifanc:

"No one from this hostel wants to go to them because they are boring as [iaith anwedus] – I was dragged into it once – it was the longest 3 hours of my life!!! I put my headphones in – got no idea what they were talking about, they were talking about building a cafe or something it will never affect me cos I will never go there!" (CCGF5)

Darparu bwyd yn ystod gweithgareddau

Un nodwedd gyson a rhan o apêl y gweithgareddau oedd y ffaith bod bwyd yn bresennol ar ffurf dewis o bizza ar noson ffilmiau neu weithgaredd penodol a bod hefyd cyfle i fynd â bwyd i fwyta adra yn ddiweddarach:

"Mae nhw [GISDA] rhoid bwyd i chdi, dw i gallu nol o lle gwario pres fy hun a ti yn cael mynd a bwyd efo chdi o ma i neud o adra, da ni ddim yn cael bwyd frozen na bara, da ni ddim yn cael huna" (CCGWB1)

hefyd:

"Mae nhw yn rhoid bwyd i fi a'r hogan fach a neud siwr bod y bwyd da ni licio yna"
(CCBF1)

Nôd Cyfranogwyr

Cafwyd ymateb cymysg gan gyfranogwyr yr ymchwil pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu nod arbennig wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Ymateb y rhan fwyaf oedd bod nôd wedi ei drafod yn eithaf anffurfiol gyda'u gweithwyr allweddol ac roedd yn rhywbeth hyblyg, organig ac esblygol yn dibynnu ar eu hanghenion.

Ymysg y nodau a restrwyd ganddynt yn benodol oedd:

- Delio gyda gorbryder
- Mynd allan o'r tŷ (er i rai frwydro yn erbyn agoraffobia)
- Cymdeithasu (cwmnïaeth a chael rhywun i siarad efo)
- Gwella iechyd meddwl, gorbryder a cwnsela
- Tenantiaeth
- Bwyd
- Cymwysterau
- Gwaith a chysiau coleg
- Codi hyder
- Trio pethau newydd

Dyma'r dyfyniadau sydd yn cynrychioli a chrynhoi pwysigrwydd y thema yma orau:

"Destress, ddim di siarad efo neb am hynny rili, mond gael chat efo pobl tra da ni yn neud nhw (gweithgareddau) oedd o yn gret ... gyno nhw mwy nag un staff, gen i hogan fach a dw i yn gallu isda efo nhw a gael be dwishio gyno nhw os dwi yn cael diwrnod drwg a mae'r hogan fach yn lyfio mynd yna atyn nhw - key worker fi nath awgrymu fo achos o ni reit isal a ddim yn cael break gan yr hogan fach, ond o ni cael mynd efo y ferch a nath nhw watchad ar ôl hogan fi tra o ni neud mosaics. Pawb yn neis, dda efo hogan fach, llwyth o betha i gadw hi yn brysur. Nesi aros am y 4 awr cyfa ond oedd o mond yn teimlo fel awr. Eshi i bob un ers huna Y ferch wedi cymryd ei first steps yn y creative workshop" (CCBF1)

"Being more social and learning, more emotional regulation and emotional responses to situations I struggle a lot with perception of emotion and being in these groups with other people I'm learning a lot about my emotions. I suffer with not so great mental health issues so going to these things helps me regulate myself" (CCBF3)

“Overcome my anxiety by mixing with new people – meet new friends – going to yoga for example meet a new friends and going to the gym with her now. Activities are really helping me – achieving my personal goals and I feel good after doing the activities not just sitting around” (CCBF5)

“Each activity are different.... helps me experiment without having to worry funding it and it helps me with my social skills” (CCGF2)

“Ffrindia a dod i nabod pobl, mi o'n ni yn shei, ofnwch a swildod, a dw i yn gweld pobl wan yn dod i GISDA yn shei a dw i yn gallu helpu nhw peidio bod... O ni yn fam sengl, geshi ty trwy GISDA, Kick Start, gweithio ó mis natho nhw helpu fi neud CV, helpu fi chwilio am swydd newydd” (CCBF6)

*“Improve my confidence (and it has improved), I'm going to college in September to do childcare course 14 weeks college and 3 weeks in a nursery it's in Caernarfon and a small group of people. I discussed my goals with my key worker- it's going good because we go out to a café that helps – I suffer with social anxiety so it gets me out and stuff”.
(CCBF8)*

*“Don't have a specific goal – just to enjoy myslef really and have a good day”
(CCGF3)*

“To feel OK and be happier in myself, [LGBTQ+] helped me massively” (CCGWC1)

Gweithiwr Allweddol

Yn bell o fod yn annisgwyl, roedd hon yn brif thema eang yn treiddio ar hyd ac ar draws themâu eraill yr ymchwil.

Ychydig a phrin oedd y dystiolaeth negyddol a fynegwyd am y gweithwyr allweddol. I'r gwrthwyneb roedd y cyfranogwyr yn canmol eu gweithwyr allweddol ac yn rhannu enghreifftiau clodwiw o'u gwirfodd. Roedd rhai yn priodoli eu dyfalbarhad gyda'r gweithgareddau i weithwyr allweddol penodol.

Atgyfnerthir y thema gan ddata ansoddol a gofnodwyd rhwng 3.11.21 a 17.06.22 gan GISDA, sydd yn cynnwys sylwadau gan ddefnyddwyr oedd wedi elwa yn fawr o'r berthynas â'r gweithiwr allweddol. Maent yn crybwyll cefnogaeth ac anogaeth eu gweithwyr allweddol i barhau â'r gweithgareddau fel ffactorau pwysig o ran eu dyfalbarhad fel defnyddwyr TAPI.

Cefnogaeth ac argaeledd

Ar y cyfan, ymateb positif a gafwyd gan gyfranogwyr am argaeledd a chefnogaeth gan weithwyr allweddol yn gyffredinol ac mewn gweithgareddau, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod bron bod amser ar gael dros y ffôn (neges neu alwad) a'u bod yn ymwybodol sut oedd cael gafael ar weithwyr cefnogol oedd 'on duty' ar benwythnosau neu gyda'r nos.

*“Cael key worker textio neu ffonio i weld sut ydw i a sut mae petha – mae hi yn dda efo fi – os dwi angen wbath, cefnogol iawn a rhoi advice i fi.
Dwi disgwl gael asesu autism mae GISDA wei helpu fi hefo huna am bod na waiting list”
(CCBF2)*

“key worker and separate activity staff would suggest useful sessions to help with certain things – onward referrals – fully engaged and mutual discussions in the outcomes” (CCBF3)

“Oedd gen i anxiety, so oedd key worker fi yn dod efo fi i sesiyna cynta, bob tro yn neud siwr bod fi yn iawn (CCBF6)

“Oherwydd iechyd meddwl, helpu sortio symud allan o ty fi a ceisiadau am jobs a sbio ar Uni” (CCGWC2)

“Key worker I don't have one really it all happens via social services – better for one person to speak to and I can contact my key worker when I want to I have their mobile number” (CCGF4)

Roedd ambell brofiad yn llai cadarnhaol.

*“I don't see her much mostly talk over messages not proper conversations
I don't think I've been treated as someone who needs support from GISDA
Once a month check in, but she hasn't turned up today I've cleaned the house and got the baby ready. They do help, but just to a certain degree. They can come late too, I've had two different key workers now too – first one wasn't helpful at all that's why I asked to switch, the one I got now is absolutely lovely but it's like I'm living here I have to fit my day around them.*

I've always said that this house does not feel like home as much as I've been here for 1 year – because they can pop in whenever they want, even if they give me 20 minutes notice they can come in – I think that they have supported me

I can handle it, but I'd hate to think if someone else is in my position and don't know what they are doing with bills and everything and there is not much support there.

*There is nothing worse than having to ask for help either!!
There are times when they really could have helped a bit more.*

In the first couple of months, they were really helpful.

*Seeing the key worker more often would be more helpful, but then I know she is stressed going from one person to another and I feel so sorry for her. If all the key workers had the same amount of people to deal with that would be more helpful
GISDA go the extra mile, but I feel that they are stretched with everything that they have to do” (CCBF10)*

*“I rarely talk to her,
I don't know what she has to offer or when she's in.
She has lots of people to work with
I did not ask for one” (CCGWB2)*

Perthynas llesol a pharodrwydd i dderbyn adborth, ymateb ac atgyweirio

Tra bod nifer fechan wedi nodi perthynas hirbell â'u cydweithiwr allweddol, mae'r dyfyniad isod yn gynrychiadol o farn y mwyafrif.

“Dw i cael floating support, perthynas brilliant...fel second family, fel second Mum fi – dwi ddim gwybod be fyswn i neud hebddi” (CCBWP1)

Roedd y mwyafrif helaeth yn hapus iawn gyda'u gweithwyr allweddol ac yn mwynhau perthynas dda (os nad teuluol) gyda pharch proffesiynol tuag at eu

gweithwyr allweddol. Noda llawer eu bod yn mynd 'y filltir ychwanegol' ac nad oedd dim byd yn ormod, eu bod yn cael dewis eu gweithwyr allweddol a'u bod yn teimlo bod nhw yn eu deall a bod ganddynt, i raddau, yr un diddordebau.

*"Making sure I was more stable, I always bounce in and out of GISDA
...I get floating support (CCBWC1)*

*"She was there when I gave birth, she's like family, there every step of the way
I think of her as more than my keyworker
Staff are lovely" (CCBWC2)*

*"The keyworkers are fantastic, amazing people
I engage more with my keyworkers, they help me out with things like getting a bank account
and getting some independence" (CCBWB4)*

"Staff have helped, they know when something is wrong" (CCBWB3)

Noddodd y cyfranogwyr bod GISDA fel sefydliad a gweithwyr allweddol yn benodol nid yn unig yn cynghori ar weithgareddau a thripiâu ond eu bod yn agored iawn a pharod i dderbyn adborth feirniadol am weithgareddau.

Sgiliau newydd

Roedd canran uchel o gyfranogwyr yr ymchwil yn nodi eu bod wedi dysgu sgiliau newydd ffurfiol yn sgîl astudio am gymwysterau achrededig.

Cafodd gyfranogwyr gyfleoedd i wella cyflogaeth drwy fanteisio ar gyrsiau achrededig (yn bennaf drwy ICAN). Ymysg y rhain oedd:

- Cymorth Cyntaf
- Theori prawf gyrru
- Hylendid Bwyd
- Cyllidebu a rheoli arian (mewn perthynas a rheoli ty)

Sgiliau cymdeithasu a chyfathrebu gwell

Gyda'i gilydd roedd llawer wedi mynegi eu bod wedi meithrin a datblygu sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig gwell gydag amrediad o bobl mewn amryfal sefyllfaoedd a chynulleidfaoedd. Roedd cyfranogwyr hyn yr ymchwil yn dweud fod sgiliau cyfathrebu yn hynod bwysig pan oedd ganddynt blant wedi eu geni yn ystod cyfnodau clo'r pandemic COVID. I ddyfynnu enghraifft o'r data:

*“Socialising was really important for us but more important for our child because our child was born during Covid lockdown.
Socialising in group activities organised by GISDA felt like you could let your hair down because you know the other people and children who were going to the activities.
There was familiarity and safety factored in that you did not have to worry about
We learned communication skills, problem solving skills, working as a team, leadership skills and new parenting skills – exchanging with and from others“ (CCGF3)*

Yn ogystal â'r uchod roedd eu sgiliau ymgeisio swyddi, prentisiaethau a chysiau coleg a pharatoi am gyfweiliadau wedi gwella oherwydd yr ymyrraeth a'r gefnogaeth a gawsant gan raglenni TAPI . Roedd cyfranogwyr hefyd yn teimlo eu bod yn gallu delio yn well gyda sgil effeithiau gorbryder a bod ganddynt ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o empathi at eraill.

Sgiliau Annibyniaeth

Roedd gallu coginio, deall cynhwysion a phris prydau yn hytrach na phrynu prydau parod parhaus yn sgil (cyllidebu) amlwg a gwerthfawr iddynt ac yn flaenoriaeth cyfartal â sgiliau blaenoriaethu a thalu biliau tŷ megis trydan, nwy, dwr cyn gwario ar eitemau eilradd.

“...independant living skills – GISDA did sessions on living alone that really helped me with developing realistic expectations” (CCGF2)

“GISDA helped me do a lot more independently – I never used to be able to go on a bus on my own before and I can do that now every week” (CCBF8)

“GISDA wedi newid fi fel person gwell – wedi helpu fi gwella social skills, communications skills, independent living skills” (CCBF9)

Roedd llawer yn teimlo eu bod wedi eu grymuso i ddweud “na” a'u bod yn gallu arfer eu hawliau i fod mwy agored.

Sgiliau Personol

Roedd pawb yn gytŷn bod ymdeimlad o gael eu derbyn yn ddiragfarn a datblygu hunaniaeth a hunan ddelwedd bositif. O ganlyniad roeddent yn fwy parod i fod yng ymysg eraill, a pheidio cilio.

Mae tystiolaeth gadarn a chryf yn y data yn nodi bod y gweithgareddau wedi hyrwyddo hunan barch a hunan hyder a bod hyder wedi dyrchafu ers bod wedi ymwneud a GISDA. Mae hyn yn cael sylw pellach o fewn yr adran ar lefelau hyder.

Lleiafrif yn unig a fynegodd farn nad oeddynt wedi derbyn sgiliau newydd.

Eithriadau oedd y rhain ac yn adlewyrchu'r sefyllfaoedd canlynol:

- y rhai oedd yn newydd i'r gwasanaeth ac o bosib am ymwneud hwyrach ymlaen yn eu perthynas â rhaglenni a gweithgareddau GISDA.

- o rhai oedd angen ymgynefino yn eu sefyllfa bresennol (megis ymwahanu o'u perthnasau a theuluoedd, ymdopi a rheoli eu hiechyd meddwl), a dod i arfer gyda sefydliad, trigolion a defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal
- o y rhai oedd yn ffocysu yn benodol ar sgiliau byw annibynnol, tenantiaeth a threchu digartrefedd

Lefelau hyder

Yn ddi-os, roedd hyder yn thema enfawr a dylanwadol ar ddeilliannau unigolion o brofi ymyraethau rhaglenni TAPI. Roedd y thema yma hefyd yn treiddio ar hyd ac ar draws themâu eraill yr ymchwil.

Cafwyd enghreifftiau dirifedi o sut roedd hyder unigolion wedi gwella yn eithriadol, fel dengys y detholiad cynrychioladol o ddyfyniadau yma:

“Hyder newydd i allu siarad efo strangers, dw i yn swil ofnadwy, ddim yn gallu siarad ar ffôn efo neb – deffo wedi gwella siarad efo chi wan ydw” (CCBF1 – yn berson gydag anawsterau cyffathrebu)

“Mwy o confidence i ofyn am help especially erioed di neud huna o blaen” (CCBF2)

Confidence levels increased I have more control over what I know I'm good at – meet people in public and not feel akward about it (CCBF3)

“[Confidence levels are] better now than ever before – less of a hermit and I socialise more I am physically fit via exercise too so now I can go out on walks and stuff I never usually leave my room.

I have more confidence in trying new things out and taking opportunities and social friendships that will continue – a skill for life has been gained.

Confidence has increased with GISDA, I had no hope before, I have dropped out of college twice before, I feel that I can do it now because they have given me the confidence staff and peers, I feel more supported in my decisions” (CCBF4)

“A 10 out of 10 in confidence now because of the support system” (CCGWC1)

“I can face stuff that I would not have without GISDA” (CCGWP1)

Roedd ambell i un yn nodi ei fod yn fater parhaus iddyn nhw oherwydd difrifoldeb gorbryder, ond bod GISDA yn annog ac yn cynorthwyo nhw yn broffesiynol gyda'r mater a bod ganddynt obeithion am wellhad trwy'r gefnogaeth. Roedd eraill yn teimlo nad oedd hyder yn fater o bwys iddyn nhw fel y mynegir yma:

"I'm a confident person – I did gymnastics for 11 years" (CCGF5)

Wrth graffu ar ddata meintiol a mesuriadau ymyraethau TAPI a gofnodwyd rhwng 3.11.21 a 17.06.22 gan GISDA, mae'r data ansoddol yn asio gyda data ansoddol yr ymchwil yma. O'r 338 o bobl ifanc a roddodd adborth, cofnodir 10% fel rhai yn nodi mesur dyrchafedig o hyder o ganlyniad i weithgareddau TAPI. Fodd bynnag, gall fod y canran yma yn llawer iawn uwch mewn gwirionedd gan fod elfennau eraill megis sgiliau datrys problemau, meddwl yn glir, teimlo'n dda, teimlo'n obeithiol, perthynas gydag eraill a gallu gwneud penderfyniadau, yn fesuriadau a chanrannau a driniwyd ar wahân, ond sydd yn amlwg yn perthyn i lefelau hyder.

Tabl 4. Cyfartaledd mesuriadau gwahaniaeth ôl-ymyrraeth

Pobl ifanc – gwahaniaeth cyfartalog	
Optimistic difference	+19%
Useful difference	+12%
Relaxed difference	+27%
Problems difference	+18%
Thinking clearly difference	-
Feeling good difference	+12%
Good Relationships Difference	+10%
Confidence difference	+10%
Making decisions difference	+8%

Siarad allan

Roedd y cyfranogwyr eu hunain yn ei adnabod y gallu i godi eu lleisiau neu "siarad allan" fel medr newydd a rhywbeth nad oeddynt yn gallu ei wneud o'r blaen.

Cwmpasa'r wybodaeth yn bennaf y gallu i fynegi barn am weithgareddau wrth weithiwr allweddol neu rannu barn mewn grwpiau a gyda cydweithwyr neu gymheiriaid.

O ran nifer, roedd niferoedd y rhai oedd yn barod i siarad mewn gweithgaredd grŵp a'r rhai oedd yn well ganddynt siarad un-i-un gyda'u gweithwyr allweddol tua'r un peth.

Roedd y sampl o gyfranogwyr cyfan bron yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu eu barn hyd yn oed pe byddai nhw ddim yn manteisio ar y cyfle:

"GISDA is good doing board meetings and they let us discuss issues and they take them onboard and they find ways to help us – but GISDA are really good" (CCBF5)

Roedd rhai (CCBWC3) wedi cael y cyfle i fynegi barn am 2 awr cyflawn yn y Senedd, siarad gyda gwleidyddion a Phrif Weinidog Cymru, rhoi barn ar effeithiolrwydd polisiâu Llywodraeth Cymru, ac ateb cwestiynau yn sgîl profiad o ymweld a Chaerdydd a drefnwyd gan GISDA fel rhan o weithgaredd Clwb LGBTQ+.

I rai, dyma paham y gallent erbyn hyn fynegi barn ac eiriola dros eu diddordebau:

"Would not have done that before, they have gained my trust and confidence" (CCBF8)

"Always able to approach them with suggestions and speak your mind" (CCGF3)

Hyfforddiant, addysg a rhwydweithio gyda darpar gyflogwyr

Mae'r îs-themâu yma wedi eu trafod mewn peth dyfnder yng nghyd-destun y themâu eraill, eisoes.

Mae profiadau'r cyfranogwyr yn rhannu i dri :

- Rhai mewn hyfforddiant ac addysg a gwaith
- Rhai yn ceisio hyfforddiant ac addysg, prentisiaethau a gwaith
- Rhai ddim yn chwilio am waith oherwydd rhesymau iechyd/ iechyd meddwl.

Y rhwystrau

Roedd y cyfranogwyr yn gwbl agored yn nodi'r rhwystrau a wynebwyd ganddynt.

Nododd rhai nad oeddynt yn gallu mynychu gweithgareddau TAPI oherwydd eu bod weithiau yn gwrthdaro gyda'u haddysg a/neu waith.

Roedd rhai yn gwneud cynnydd annibynnol mewn addysg a ddim yn gweld y byddent yn elwa rhagor o weithgareddau TAPI:

"At the moment studying level 2 childcare in college – I want to go into nursery nursing – I want to become a paediatric nurse I've set out on where I want to be I just need to do it now, nearly finished college, I've passed 3 out of 8 exams already" (CCBF5)

Nododd eraill nad oeddent yn gallu ystyried addysg bellach a/neu uwch oherwydd pellter ac amser teithio/a diffyg arian i gyllido'r drafnidiaeth gyhoeddus.

"I think that bus passess for people to go to college would be very good for your people living in the hostels – its so expensive and they are losing out on the oportunities" (CCBF10)

Ac i eraill, roedd eu hiechyd a diffyg budd-daliadau yn rwystr:

"I didn't finish school because of my health, I went college but had to leave because of my health – they asked me to leave – open uni – but didn't get my disability support" (CCBF14)

Blaenoriaethau ac ofnau

I nifer, roedd cael tenantiaeth a rhywle i fyw yn gwbl greiddiol, yn rhagori ar unrhyw fater arall ac i ryw raddau (yn enwedig os yn famau sengl) yn rwystr rhag iddynt ystyried gweithio/hyfforddiant. Roedd rhai ofn y dyfodol, (er bod y dyfodol i weld yn

bell i ffwrdd iddynt), a rhai yn benodol ofn bod yn ddigartref wrth gyrraedd 24 oed - oed trothwy cynhaliaeth GISDA.

Hwylusydd

Hwylusodd GISDA gyfleoedd at hyfforddiant, addysg a gwaith i garfan uchel o'r cyfranogwyr, fel y dengys y dyfyniadau isod:

"Virtual college, oedda ni neud huna, neud CV rai oedd ddim efo GCSE da iawn, chat efo ni cyn interview, mae nhw yn gefn i ni efo bob dim da ni yn neud" (CCBF6)

"Military preparation college I'm attending it now and I'm really enjoying it, I am an anxious person – GISDA helped me get a place there. I want to go the royal marines or army There are about 50 there at the moment – I know quite a lot of them" (CCGF4)

"Applying for college with GISDA help and support, not sure I would have done that on my own – I probably would have joined the army" (CCGWC3)

"I might have gone to the army or chosen wrong college course without GISDA"
(CCGWC3)

"Cael job – wedi cael job heddiw GISDA wedi helpu fi" (CCBF17)

Hefyd mae sawl enghraifft o GISDA wedi, ac yn parhau i gyflogi rhai o'r cyfranogwyr:

"I tried to get a job as an [xxxxx] officer and I got that job, I don't want to rush out of this job in GISDA, If I'm making a difference why would I change" (CCGWC1)

Rhwydweithio gyda darpar gyflogwyr

Tystiodd rhai eu bod wedi gallu rhwydweithio ohewydd eu bod wedi ymwneud â gweithgareddau TAPI:

"I have contacts to costume designer and stage directors because of GISDA" (CCBF3)

Nododd eraill eu bod gyda dyheadau gyrfaol a bod GISDA yn eu cynorthwyo i gyrraedd y nôd trwy eu cefnogi i gael profiad o waith gyda'r cyhoedd:

"Ar y funud dwi gweithio mewn siop ice cream Dw i isho bod yn support worker neu social worker" (CCGWC2)

Roedd enghreifftiau hefyd fod asiantaethau eraill yn hyrwyddo rhwydweithio a cyfleoedd pellach i unigolion:

*"Had college speak on my behalf
Doing apprenticeship" (CCBWB1)*

"I get help from Wales Careers Adviser" (CCBWB2)

Tra bod eraill mewn cyfnod o ystyried cyn mentro ar yrfa:

*I'm in school and work
Work in chippy
Don't know what I want to do (CCBWB8)*

Gwneud Ffrindiau

Roedd carfan uchel yn dweud eu bod wedi elwa, ac wedi gallu gwneud ffrindiau tra gyda GISDA.

- Ffrindiau agos (yn cefnogi eu gilydd yn ddyddiol)
- Ffrindiau gyda trigolion hosteli GISDA ar draws Gwynedd
- Ffrindiau mewn gweithgareddau
- Ffrindiau gyda hwyluswyr rhaglenni, gweithgareddau a chydweithwyr allweddol

Amlygir un ffactor dros lwyddiant o ran ennyn ffrindiau newydd gan y dyfyniad yma:

*"Most of my friends are from GISDA, I talk more than I used to
Struggled with loneliness, it's been good to make friends like me, they struggled like me with
bullying" (CCBWC3)*

Fodd bynnag, nododd rhai nad oeddent wedi dymuno gwneud ffrindiau oherwydd cyflwr iechyd meddwl a bod GISDA yn parchu hynny yn llwyr ac yn ceisio eu cynorthwyo:

*"I don't live in GISDA, so I don't see a lot of many other young people – I have been offered
to do group activities but not felt comfortable doing it" (CCBF8)*

*"Dwi ddim yn dda am neud cysylltu efo pobl eraill – ond mae GISDA wedi helpu efo
huna" (CCBF2)*

*"A lot of friends at LBGTQ+ and creativeclub and on wellbeing walks – talking to other
residents I don't really talk, but it's been fun to do that"
(CCBF3)*

*"I made friends in the activities – I have two new best friends in the hostel and the Blaenau
team – extended from my immediate living area" (CCBF4)*

"Dw i wedi gwneud ffrinia yn GISDA – social network fi lot mwy wan a wedi gwella fi fel person" (CCBF9)

Roedd sawl enghraifft hefyd o gyfranogwyr yn cyfeirio eu ffrindiau at wasanaethau GISDA, sy'n cael ei amlygu orau gan y dyfyniad yma:

"I have loads of friends at GISDA, one of my freinds actually referred me to GISDA. Ive gotten better at speaking to people" (CCBWB5)

Y dyfodol

Roedd y cwestiwn am eu dyfodol yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ymhelaethu wedi iddynt fyfyrto ychydig mwy wedyn am eu profiadau ac wrth iddynt ddod i arfer ac ymlacio gyda'r cyfweliad a'r cyfwelydd. Ymwela'r thema yma yn bennaf â hyder, sgiliau cymdeithasol, dyheadau a chyflogadwyedd, a llety.

Roedd y rhan fwyaf yn obeithiol iawn am eu dyfodol ac yn cymharu eu bywydau/cyfleoedd posibl cyn ac ar ôl ymyraethau GISDA. Priodolodd dau gyfranogwr newidiadau yn benodol i effeithiau positif y gweithgareddau tra bod y gweddill yn cyfeirio'n gyffredinol at eu profiad o wasanaeth GISDA .

Detholiad o ddyfyniadau:

My future has Improved a lot – not because of the activites but more in fact of the people in the activities there are a diffrence bewteen the sessions (CCBF3)

I feel good after having done the activities - feel more hopeful for the future, energized and guided by GISDA in my future career aspirations (CCBF5)

"I'm hopeful, I got my own flat- took 3 years, I was a lot more shy before GISDA – wasnt talking much with any one – personal skills improved, I'm not messy anymore" (CCGF1)

"GISDA has defo helped my future to be more prosperous. I think about this differently, I have higher hopes for the future" (CCGF6)

*Feel like in the future I have a lot going for me - not in a conceited way
With better skills I can go far in life (CCGWB3)*

Roedd sawl enghraifft bwerus o'r newidiadau cadarnhaol oedd wedi dilyn yn sgil profi ymyrraeth a chefnogaeth ac sydd yn parhau ag effaith ar eu dyfodol:

"I'd be in Hergest [uned seiciatrig Ysbyty Gwynedd] or jail because of my Mum without GISDA" (CCBWC1)

"Don't know but I'd still be sofa surfing without GISDA" (CCBWC2)

"GISDA changed my life – don't self harm any more, my mind is focused on the positive" (CCGWP1)

*"Oedd depression fi really drwg a o ni yn suicidal a nes i fynd i Hergest.
Oedd GISDA yna syth a dwi ddim gwybod lle fyswn i heb nhw"
(CCBWP1)*

Wrth graffu ar ddata meintiol a mesuriadau ymyraethau TAPI a gofnodwyd rhwng 3.11.21 a 17.06.22 gan GISDA, mae'r data ansoddol yn cyd fynd gyda'r thema yma ac â data ansoddol yr ymchwil yma (sylwer ar gyfochredd tabl 4 tudalen 37 yr adroddiad).

Newidiadau i'r Cynllun

Nododd y cyfranogwyr rhai newidiadau y byddent yn hoffi eu gweld i'r cynllun:

*"I would change activities – different range, rotate them biweekly and vary them
Times and locations are good. When I turned 17 GISDA only offer diving lessons to those
living on Anglesey and not Gwynedd"* (CCBF5)

*More properties in Pwllheli area for young people 16-25 to give more opportunities, it would
make sense if there were more housing by GISDA in Pwllheli to coincide with the office
(CCGF1)*

*"The need for more activities in Blaenau – Caernarfon have more going on than Blaenau
GISDA say they can take you, but I don't want to travel"* (CCGWB3)

Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif yn credu bod angen unrhyw newid, fel y dangosir isod:

"[GISDA] No, they're cool, they are there" (CCBWB8)

Heriau

Cafwyd nifer eang o ymatebion gwahanol gan gyfranogwyr yr ymchwil yn disgrifio yr heriau yr oeddynt yn wynebu.

Mae'r dyfyniadau yma yn crisialu ambell her:

*"Ffeindio yn anodd cyfathrebu, teithio. Mae nhw yn flexible sydd yn rili helpu – dim stress,
helpu, a dim limits iddyn nhw chwaith".* (CCBF1)

*"Pobl newydd ond oedd o yn beth da i fi, ddim yn arfer cael rhywun i helpu fi so o ni ofn
gofyn am help, ffordd geshi fy magu rili balchder – ddim yn hapus i ofyn am help"* (CCBF2)

*"Nothing particularly – apart from the social side of stuff personally, the activities themselves
are quite accessible for everyone, no great difficulties in any of the tasks at all – but if there
were difficulties staff would come and help you"* (CCBF3)

*"Mynd i gweithgareddau ar y cychwyn, ac agor i fyny – teimlad o berthyn pawb yn
lyfli"* (CCBF6)

*"Lot of different people – diversity of others a problem it can be difficult for some who don't
want to interact. You see them clashing sometimes".* (CCGF5)

"Sometimes trust, not because of GISDA but because of my past" (CCBWB6)

6. Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r ymchwil uchod yn trafod themâu sydd yn codi o gyfweiliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth GISDA gan hefyd ystyried pwyntiau ble mae ffynonellau eraill o wybodaeth a gasglwyd gan GISDA ar y cynllun yn atgyfnerthu'r canfyddiadau hynny. Mae'r patrymau tebyg ar draws y data yn atgyfnerthu'r casgliadau a wneir ar sail yr ymchwil hwn.

Cynigir y canfyddiadau isod ar sail yr ymchwil.

- Gwellodd hyder mwyafrif llethol y cyfranogwyr tra roeddynt yn derbyn ymyraethau drwy TAPI, gyda rhai yn teimlo eu bod wedi ei harfogi ar gyfer heriau'r dyfodol.
- O ran mynegi eu barn ym mhwyllgorau TAPI a GISDA, roedd carfan sylweddol yn fwy hyderus wrth wneud yn teimlo wedi eu grymuso ac yn mwynhau'r cyfle i fynegi barn. Teimlai'r mwyafrif bod y sefydliad yn gwrando ac ymateb yn gadarnhaol i feiniadaeth a chynigion o ran newidiadau i'r gwasanaeth. Roedd rhai yn teimlo bod eu barn wedi cael dylanwad ar drafodaethau cenedlaethol a pholisïau Llywodraeth Cymru gan eu bod wedi cael y cyfle i fynegi barn yn Y Senedd.
- Roedd cyfran uchel o'r ddefnyddwyr gwasanaeth yn dioddef o broblemau gorbryder, rhai oherwydd COVID-19.
- Roedd y mwyafrif llethol yn teimlo bod eu nodau personol wedi eu cyrraedd drwy ymyraethau TAPI a'u bod yn mwynhau perthynas da gyda'i gweithwyr allweddol. Ymhellach at hyn, mae'r ymchwil yn awgrymu bod meithrin perthynas dda gyda'r gweithwyr allweddol yn gwbl greiddiol i ddatblygiad sgiliau personol a phroffesiynol cyfranogwyr i'r dyfodol a'u hymdeimlad o lwyddiant. Mae yna arwyddion bod yna brinder gweithwyr allweddol ac o ganlyniad bod rhai anghenion heb eu diwallu.
- Roedd cyfranogwyr yn mwynhau gallu dewis a dethol pa ymyraethau TAPI i ymgymryd â nhw, a bod dim pwysau arnynt i'w mynychu yn rheolaidd.

- Roedd cyfran sylweddol yn ddibynnol ar y prydau bwyd oedd ar gael iddynt yn ystod yr ymyraethau. Gwerthfawrogwyd yn arbennig pan fedrid cludo bwydydd adref o'r digwyddiad i'w bwyta.
- O ran cymdeithasu, gwerthfawrogid cwmni pobl ifainc eraill gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn enwedig ym nghyd-destun gorbryder a phrofiadau o unigedd yn ystod y pandemig COVID.
- Roedd lleiafrif yn teimlo nad oedd digon o ddewis o fewn ymyraethau TAPI, gyda rhai yn benodol yn sôn am yr angen i gael gweithgareddau ar y penwythnos a chael mwy o weithgareddau awyr agored.
- Bu'r ymwneud â GISDA yn drobwynt pwysig er gwell ym mywydau cyfranogwyr, gydag enghreifftiau o gyn ddefnyddwyr gwasanaeth bellach yn swyddogion gyda'r sefydliad. Cynigwyd i eraill brofiadau personol oedd yn aml yn ddwys a chadarnhaol.

Mae'r ymchwil hwn ynghyd â thystiolaeth meintiol a gasglwyd gan GISDA yn cynnig tystiolaeth gref o ran effeithiolrwydd cynllun TAPI ym meysydd **sgiliau a chyrhaeddiad dysgu, hyder, lles, chyflogadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol, a chyfranogiad.**

Er nad oedd cyfranogwyr yn llwyr ymwybodol pa weithgareddau a gyniwyd gan GISDA oedd yn ran o TAPI, gwerthfawrogwyd hyblygrwydd y cynllun o ran yr ystod o weithgareddau yr oedd yn bosib ymwneud â nhw ac hefyd o ran disgwyladau cymdeithasol. Gwerthfawrogwyd hefyd parodrwydd y staff i wrando ar syniadau defnyddwyr. Roedd ystyriaethau ymarferol megis darpariaeth bwyd a'r gallu i gludo bwyd adref wedi'r digwyddiad yn bwysig hefyd. Ymysg y sawl a fu'n rhan o'r weithgaredd roedd y daith i'r Senedd yng Nghaerdydd i mynegi eu barn yn uchafbwynt oedd ag effeithiau cadarnhaol hir-dymor.

Roedd ystod eang o weithgareddau yn cyfrannu at adeiladu sgiliau a dysgu defnyddwyr. Nid oedd yna wahaniaeth glir rhwng cyrsiau ffurfiol ac anffurfiol o ran datblygu sgiliau a dysgu. Yn yr un modd datblygwyd hyder defnyddwyr gan bob math o weithgaredd fel dengys data meintiol GISDA (tudalen 36). Mae'r canlyniad

yma yn adlewyrchu ystod y gweithgareddau a'r raddau y bu'n bosib i greu cefnogaeth person-ganolig yn yr achos yma.

Perthynas ag ymchwil, arfer da a pholisi

Roedd cynllun TAPI yn arloesol ac roedd yn adleisio themâu o fewn ymchwil cyfredol. O ran pwysigrwydd cynllunio gweithgareddau i leihau unigedd, mae Matthews a chydweithwyr(2019), yn cynnig tystiolaeth cryf o effeithiau negyddol unigedd ar bobl ifanc a goblygiadau i'w hiechyd yn y dyfodol. Roedd TAPI hefyd yn defnyddio dull yn seiliedig ar fedrau pobl ifanc gan felly greu'r amodau ar gyfer ymreolaeth a llwyddiant pobl ifanc ar ôl l'r cynllun ddod l ben (Quinton a chydweithwyr 2021).

O ran arfer da adnabuwyd yn ryngwladol, gwelir bod TAPI yn rhannu agweddau pwysig gydag ymyrraeth ar sail chwaraeon yng Ngwlad Belg (van der Veken a chydweithwyr, 2020)¹⁹. Fel yn yr achos yna roedd TAPI yn defnyddio digwyddiadau hwyliog a chymdeithasol l gynnwys pobl ifanc. Llwyddwyd i greu perthynas agos a chadarnhaol gyda'r staff. Mae canlyniadau'r ymchwil yma yn dangos i ymagwedd ddiamedod cael ei gyfleu i ddefnyddwyr oedd yn teimlo eu bod yn perthyn.

Roedd sawl agwedd o waith TAPI yn cyd-fynd â phwyslais polisi ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, o ran lefel y cydweithio rhwng asiantaethau, a chyflenwyr gwasanaeth o bob math i gwrdd ag anghenion unigolion ac o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau dinesig a'r gallu i godi llais (Comisiynydd Plant Cymru, 2022, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2020). Gwelwyd hefyd ymrwymiad i hybu ymwybyddiaeth o iechyd a lles, cynyddu sgiliau trwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol a mynd i'r afael ag effeithiau profiadau negyddol yn ystod plentyndod (ACE).

Er bod ymyraethau yn dysgu sgiliau bywyd ar draws y byd, yn ôl adolygiad systematig, effeithiau byr-dymor sydd gan y rhaglenni yma ar y cyfan (Nasheeda a chydweithwyr, 2019). Dadleuir bod felly angen deall profiadau dysgu pobl ifanc sydd yn ddefnyddwyr i'r gwasanaethau hyn. Sonnir hefyd bod angen olrhain profiadau'r defnyddwyr wedi iddynt adael y gwasanaeth i ddeall pa sgiliau sydd o

ddefnydd o dan amodau anodd ac hefyd pa sgiliau ddefnyddir o ddydd i ddydd. Teimlir bod deall sut mae'r cynlluniau'n asio gyda chefnidir diwylliannol a phersonol defnyddwyr hefyd yn bwysig gan bod yna bosibiliad nad ydy'r addysgu bob amser wedi ei gymhathu i sefyllfa'r defnyddwyr. Gall ddata a gwybodaeth a grëwyd trwy TAPI gyfrannu at y drafodaeth yna o'i adrodd fel y mae. Yn ogystal, ynghyd a data meintiol ac ansoddol GISDA ei hun mae'r adroddiad hon yn creu gwaelodlin ar gyfer olrhain profiadau defnyddwyr TAPI dros amser neu fesur profiadau carfannau newydd. Efen o waith TAPI nad ystyrid yn benodol yma ydy effaith dwyieithrwydd o ran creu ymdeimlad o berthyn ac o ran perthnasedd y gweithgareddau. Gallai astudiaeth o'r fath wneud cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth.

Argymhellion

Argymhellir fod GISDA yn gweithredu yn benodol er ategu at nifer y gweithwyr allweddol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn.

Argymhellir hefyd y dylai GISDA ystyried creu rôl i ymchwilydd i drin y data sydd yn cael ei gywain yn reolaidd er mwyn creu gwasanaethau sydd yn newid yn ôl yr angen ac er mwyn adrodd ar weithgareddau blaengar o fewn cyd-destun rhyngwladol.

Atodiadau

I. Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes, Prifysgol Bangor
Gwynedd LL57 2DG
Ffon/Tel: (01248) 388 220

Gwerthuso ac Ymchwil Tim o Amgylch y Person Ifanc (TAPI)

TAFLEN WYBODAETH I GYFRANOGWYR

Rhagarweiniad:

Mae gwahoddiad ichi gymryd rhan mewn project sy'n edrych ar ba effaith mae TAPI wedi cael arnoch chi. Mae TAPI yn cynnig gweithgareddau therapiwtig a chreadigol, cefnogaeth i gyflogadwyedd trwy gyfleon dysgu a hyfforddiant, lleoliadau gwaith, addysgu a busnes a chyfleon i gyfranogwyr greu eu mentrau ei hun. Mae'r brosiect hefyd yn cynnwys ymchwil ar anghenion tai sydd y tu allan i sgôp y gwaith yma. Cyn ichi benderfynu p'un a ydych am gymryd rhan neu beidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam y cynhelir y project a'r hyn y bydd yn ei olygu. Cymerwch eich amser i ddarllen y wybodaeth isod a'i thrafod, os dymunwch, â ffrindiau a/neu berthnasau.

Beth yw pwrpas yr astudiaeth?

Dyma amcanion yr astudiaeth:

- Deall pa elfennau o gynllun TAPI sydd yn apelio i'r pobl mae'n gwasanaethu
- Sefydlu p'un ai ydy pob un o'r ymyraethau a gynigir gan TAPI yn helpu cyfranogwyr adeiladu eu sgiliau a'u dysgu.
- Sefydlu p'un ai ydy pob un o'r ymyraethau a gynigir gan TAPI yn helpu cyfranogwyr adeiladu eu hyder a'u lles.
- Sefydlu p'un ai ydy pob un o'r ymyraethau a gynigir gan TAPI yn helpu cyfranogwyr adeiladu eu cyflogadwyedd.
- Deall sut y gall cymryd rhan yng nghynllun TAPI gyfrannu at awydd a gallu cyfranogwyr o ran rheoli eu prosiect ei hun a chyfrannu at drafodaethau ehangach sydd yn effeithio arnynt.
- Adnabod ymarfer da a thystiolaeth o lwyddiannau posib y prosiect i'w defnyddio mewn ceisiadau cyllid pellach i darparu cefnogaeth person-ganolig i bobl ifanc a bregus.

Pam rwyf wedi cael fy newis?

Rydych wedi bod yn rhan o gynllun TAPI a danfonodd aelod o staff y wybodaeth hon atoch chi.

A oes raid imi gymryd rhan?

Mater i chi yw penderfynu p'un a ydych am gymryd rhan neu beidio. Ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar unrhyw wasanaethau na chymorth y byddoch yn eu derbyn. Os penderfynwch gymryd rhan, dylech gysylltu â'r fîm ymchwil ym Mhrifysgol Bangor trwy lenwi'r ffurflen gysynio a'i basio i aelod o staff TAPI. Cofiwch gadw'r daflen wybodaeth hon.

Beth fydd yn digwydd os penderfynaf gymryd rhan?

Mae gwahoddiad ichi gymryd rhan mewn cyfweiliad cyfrinachol i drafod eich profiadau. Hoffem gael gwybod am eich profiadau wrth ddefnyddio TAPI. Rydym eisieu deall sut mae TAPI wedi effeithio ar eich hyder, eich cyfle i gael addysg a dysgu sgiliau, a chael mynediad at leoliadau gwaith a busnes, arwain eich prosiectau eich hunain a chyfrannu at benderfyniadau. profiad gwaith neu eich gyfle i fod yn ran o benderfyniadau.

Bydd aelod o dîm y project yn dod i'ch gweld ar adeg sy'n gyfleus i chi'ch dau, naill ai yn un o swyddfeydd GISDA, neu os ydy cyfyngiadau Cofid yn weithredol, o bellder trwy'r ffon neu gysylltiad fidio. Bydd y cyfweiliadau'n cymryd rhyw 40 munud.

Nid oes atebion cywir nac anghywir, a gallwch wneud y cyfweiliad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Efallai y caiff y cyfweiliad ei recordio, gyda'ch cydsyniad neu, fel arall, bydd y cyfwelydd yn cymryd rhai nodiadau.

A fydd fy nghyfranogiad yn yr astudiaeth hon yn gyfrinachol?

Bydd. Byddwn yn cadw eich manylion cyswllt ar gronfa ddata gyfrinachol. Byddwn yn trin **yn gyfrinachol** y wybodaeth a rannwch. **Ni** chewch eich enwi mewn unrhyw adroddiadau na chyhoeddiadau. Fodd bynnag, os rhannwch wybodaeth sy'n awgrymu y gallech chi neu bobl eraill fod mewn perygl, byddwn yn trosglwyddo honno ymlaen i unigolyn dynodedig o fewn eich Awdurdod Lleol.

Beth fydd yn digwydd os dymunaf roi'r gorau i'r astudiaeth?

Mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg, a heb roi unrhyw reswm. Os penderfynwch roi'r gorau iddi, **ni fydd** eich penderfyniad yn effeithio ar unrhyw wasanaethau na chymorth y byddoch yn eu derbyn.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn cyfrannu at wella gwasanaethau GISDA. Bydd unrhyw agweddau positif o waith TAPI a gaiff eu hadnabod trwy'r astudiaeth yn cael eu defnyddio i gynllunio a cheisio cyllido prosiectau tebyg sydd yn fwy o faint.

Pwy sy'n trefnu ac yn cyllido'r ymchwil?

Trefnir y project gan GISDA a Chronfa Adfywio Cymunedol y DU sy'n cyllido'r gwaith.

Os ydych yn pryderi am agwedd o'r ymchwil hwn

Os ydych yn pryderu am unrhyw agwedd ar y prosiect hwn a hoffech siarad â rhywun cysylltwch â Peter Shapely. Pennaeth yr Ysgol, Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddor Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Ei gyfeiriad e-bost yw: p.shapely@bangor.ac.uk. Y rhif ffon ydy 01248 388171

Cyswllt am fwy o wybodaeth:

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Myfanwy Davies ar y ffôn 01248 382140 neu drwy e-bost (myfanwy.davies@bangor.ac.uk).

Y camau nesaf:

Os penderfynwch gymryd rhan, llenwch y ffurflen gydsynio amgaeëdig a'i basio i aelod o staff TAPI.

Diolch yn fawr am roi o'ch amser i ddarllen y wybodaeth hon.

College of Arts, Humanities and Business, Bangor University.
Gwynedd LL57 2DG
Ffôn/Tel: (01248) 388 220
Elusen Gofrestrig Rhif/Registered charity 1141565

Research and Evaluation of Team around the Young Person (TAPI)

PARTICIPANT INFORMATION SHEET

Introduction:

You are being invited to take part in a project that looks at what effect taking part in TAPI has had on you. TAPI offers therapeutic and creative activities, employability support through specific learning and training; work, learning and business placements and the opportunity for participants to create their own initiatives and contribute to decision making. The project also includes specific research on housing needs that is not examined here. Before you decide whether or not to participate, it is important for you to understand why the project is being done and what it will involve. Please take the time to read the following information and discuss it with relatives and/or friends if you wish.

What is the purpose of the study?

This study seeks to:

- Understand which strands of TAPI appeal to the people it serves
- Establish whether each of the interventions offered by TAPI help participants build their skills and learning
- Establish whether each of the interventions offered by TAPI help participants build their confidence and wellbeing
- Establish whether each of the interventions offered by TAPI help participants build their employability
- Understand how participating in TAPI might increase participants' desire and ability to manage their own interventions and contribute to wider discussions on issues that impact on them.
- To identify best practice and evidence of impact to be used in further funding bids to provide personal-centred support to young and vulnerable people.

Why have I been chosen?

You have taken part in the TAPI project and a member of staff has passed this information on to you.

Do I have to take part?

It is up to you to decide whether or not to take part. Your decision **will not** affect any services or support that you receive. If you decide to take part you should contact the project team at Bangor University by completing the consent form and passing it in to a member of TAPI staff. Please remember to keep this information sheet.

What will happen if I decide to take part?

You are invited to take part in a **confidential** interview to talk about your experiences. We would like to know about your experiences of using TAPI. We want to understand how TAPI has affected your confidence, your opportunities to obtain additional learning and skills, to access work and business placements, to lead your own projects and contribute to decisions important to you. A member of the project team will come to see you at a mutually convenient time, either one of GISDA's offices or if Covid restrictions are in force remotely by phone or through a video link, The interviews will take about 40 minutes.

There are no right or wrong answers, and the interviews can be completed in Welsh or English. The interview may be recorded, with your consent, or alternatively, the interviewer will take some written notes.

Will my taking part in this study be kept confidential?

Yes. Your contact details will be stored on a **confidential** database. The information you share will be treated **in confidence**. You **will not** be identified in any reports or publications. However, if you share information that is suggestive of risk to yourself or others, this will be passed on to a designated individual within your Local Authority.

What will happen if I don't want to carry on with the study?

You are free to withdraw from the study at any time without giving a reason. If you decide to withdraw, your decision **will not** affect any services or support that you receive.

What will happen to the results of the study?

The findings from this study will contribute to improving services offered by GISDA. Any positive aspects identified will be used to plan and obtain funding for a similar, larger project.

Who is organising and funding the research?

The project is being organised by GISDA. It is funded by the UK Social Prosperity Fund.

What happens if I have any concerns about this project?

If you are concerned about any aspect of this project and would like to speak to someone please contact Peter Shapely, Head of School of History, Law and Social Sciences, Bangor University. His email address is p.shapely@bangor.ac.uk and his telephone number is 01248 388171

Contact for further information:

If you would like more information, please contact Myfanwy Davies by telephone on 01248 382140 or by email (myfanwy.davies@bangor.ac.uk)

Next steps:

If you decide that you would like to take part, please complete and return the enclosed **consent form** to a member of TAPI staff.

Thank you very much for taking the time to read this information

COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A BUSNES
COLLEGE OF ARTS, HUMANITIES AND BUSINESS

YSGOL HANES, Y GYFRAITH A GWYDDORAU CYMDEITHAS
SCHOOL OF HISTORY, LAW AND SOCIAL SCIENCES



Gwerthuso ac Ymchwil Tîm o Gwmpas y Person Ifanc

FFURFLEN CYDSYNIO AR GYFER CYFWELIAD

Rhowch ✓ yn y blychau sy'n berthnasol i chi.

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth yng nghyswllt yr astudiaeth uchod.

Deallaf fy mod yn cyfranogi o'm gwirfodd, a bod gennyf hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm.

Dw i yn roi caniatâd i'r ymchwilydd gwneud recordiad sain ac/neu fideo o'r cyfweiliad.

Deallaf y cedwir fy manylion cyswllt ar gronfa ddata cyfrinachol.

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Llofnod:

Dyddiad:

**Anfonwch y ffurflen hon yn ôl yn yr amlen radbost sydd wedi'i darparu.
Diolch.**

Evaluation and Research of the Tim o Gwmpas y Person Ifanc intervention

CONSENT TO INTERVIEW FORM

Please ✓ the boxes that apply to you.

I confirm that I have read and understand the information sheet for this study

I understand that my participation is voluntary and that I am free to withdraw at any time without giving a reason

I give consent for the researcher to make an audio and/or video of my interview.

I understand that my contact details will be stored on a **confidential database**

Name:

Address:

Post code:

Telephone number:

Signature:

Date:

**Please return this form in the freepost envelope provided.
Thank you.**

III. Canllaw Cyfweiliad

COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A BUSNES
COLLEGE OF ARTS, HUMANITIES AND BUSINESS

YSGOL HANES, Y GYFRAITH A GWYDDORAU CYMDEITHAS
SCHOOL OF HISTORY, LAW AND SOCIAL SCIENCES



Gwerthuso ac Ymchwil Tîm o Amgylch y Person Ifanc

Canllaw cyfweiliad

1. Pa weithgareddau TAPI y buoch chi'n cymryd rhan ynddyn nhw?
2. Oedd gennych chi nod arbennig wrth gymryd rhan?
3. A wnaeth rhywun trafod beth oedd eich nod personol chi gyda chi?
4. Beth wnaethoch chi fel rhan o'r gweithgareddau?
5. A ddysgoch chi unrhyw sgiliau newydd trwy gymryd rhan yn TAPI?
6. Ydych chi'n teimlo'n fwy hyderus?
7. Ydych chi wedi bod yn meddwl am waith, hyfforddiant neu addysg ar ôl cymryd rhan?
8. Ydych chi wedi bod yn fwy parod i godi eich llais am faterion sy'n bwysig i chi mewn grwpiau neu gyda swyddogion?
9. Ydych chi wedi creu cysylltiadau newydd gyda chyflogwyr posib neu o fewn addysg ac hyfforddiant?
10. Ydych chi wedi creu cysylltiadau gyda phobl ifainc eraill?
11. Ydych chi'n meddwl am eich dyfodol/ch'ch hun yn wahanol ar ôl cymryd rhan?
12. Beth fyddech chi'n newid os unrhyw beth?
13. Nodwch beth oedd yn heriol i chi wrth gymryd rhan gyda rhaglen TAPI

Evaluation and Research of the Tîm o Amgylch y Person Ifanc intervention

Interview Guide

1. What TAPI activities did you participate in?
2. Did you have a special goal when participating?
3. Did anyone discuss your personal goals with you?
4. What did you do as part of the activities?
5. Did you learn any new skills by taking part in TAPI?
6. Do you feel more confident?
7. Have you been thinking about work, training or education after taking part?
8. Have you been more prepared to speak out on issues that matter to you in groups or with officers?
9. Have you made new contacts with potential employers or within education and training?
10. Have you made links with other young people?
11. Do you think about your future / yourself differently after taking part?
12. What would you change if anything?
13. What did you find challenging about the TAPI programme?

IV. Crynodeb o Ddogfennau Polisi Perthnasol Y Brifysgol

Rhif	Disgrifiad o'r Eitem	Fersiwn / Dyddiad
1	Polisi Iaith (Lleol)	Cyfredol
2	Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor	Cyfredol
3	Diogelu Plant	Cyfredol
4	Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Cyfredol
5	Diogelu Data / Cyfrinachedd	Cyfredol
6	Yswiriant Indemniad Proffesiynol	Cyfredol
7	Tystysgrif Yswiriant Atebolwydd Cyflogwyr	Cyfredol
8	Tystysgrif Yswiriant Atebolwydd Cyhoeddus	Cyfredol
9	Polisi Gweithio ar eich Pen eich Hun	Cyfredol
10	Aseidiadau Risg (amrywiol)	Cyfredol